



CYFLAWNI **TEGWCH** A RHAGORIAETH MEWN **ADDYSG** A **GWELL LLES** I BAWB

EQUITY AND **EXCELLENCE** IN **EDUCATION** AND **ENHANCED WELLBEING** FOR ALL

**YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I AD-DREFNU
DARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU
PRIF FFRWD – ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
YN RHONDDA CYNON TAF**

Adroddiad Ymgynghori

Cynnig i aildrefnu'r ddarpariaeth o ran dosbarthiadau cynnal dysgu yn Rhondda Cynon Taf

1. Nod yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Ei bwrpas yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal yn ystod y cyfnod rhwng 5 Mehefin a 14 Gorffennaf 2023 gyda'r holl randdeiliaid a'r partion â buddiant sydd wedi'u rhestru isod.

2. Â phwy ymgynghoron ni?

Cafodd copi o'n dogfen ymgynghori a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd: www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadauYsgolion

- Cyrff Llywodraethu, rhieni, gwarcheidwaid a staff Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon, Ysgol Gynradd Penrhiwceibr, Ysgol Gynradd Perthcelyn
- Corff Llywodraethol Dros Dro yr ysgol 3-16 newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen a'r ysgol pob oed cyfrwng Cymraeg newydd.
- Cyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos
- Cynghorau Ysgol Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon, Ysgol Gynradd Perthcelyn, Ysgol Gynradd Penrhiwceibr, Heol y Celyn, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Corff Llywodraethu Coleg y Cymoedd
- Corff Llywodraethu Prifysgol De Cymru
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Aelodau Cynulliad holl etholaethau ac ardaloedd rhanbarthol sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf
- Aelodau Seneddol etholaethau Cwm Rhondda, Pontypridd a Chwm Cynon
- Estyn
- Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Undebau Llafur Athrawon a Staff Cymorth
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
- Y Bartneriaeth Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cymdeithas Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Lleol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Awdurdodau Lleol cyfagos

3. Ynglŷn â beth roedden ni wedi ymgynghori?

Roedd y cynigion a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad yn cynnwys:

Adleoli darpariaethau dosbarth cynnal dysgu allweddol er mwyn sicrhau darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol mewn adeiladau ysgol hygyrch ar un safle. Cynigwyd adleoli'r dosbarthiadau canlynol o fis Ebrill 2024:

- **Cynnig 1:** dosbarth cynnal dysgu (Arsylwi ac Asesu) yn Ysgol Gynradd Penrhiwceibr i adleoli i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon.
- **Cynnig 2:** Adleoli'r dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anhwylder Sbectwm Awtistiaeth (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn i greu darpariaeth pob oed y Cyfnod Cynradd.

Datblygu darpariaethau dosbarthiadau cynnal dysgu newydd. Cynigiwyd bod y dosbarthiadau cynnal dysgu newydd a sefydlwyd o fis Medi 2024:

- **Cynnig 3:** Un dosbarth cynnal dysgu Asesu ac Ymyrraeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon.
- **Cynnig 4:** Dau Ddosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg y Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol.
- **Cynnig 5:** Un ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu i ddisgyblion blynyddoedd 7 i 11 sydd ag Anhwylder Sbectwm Awtistiaeth yn yr ysgol newydd i ddisgyblion rhwng 3 a 16 oed ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen.

4. Y Broses Ymgynghori

Cafodd copïau electronig o'r ddogfen ymgynghori gyda'r ddolen i'r ffurflen ymgynghori eu hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn Adran 2 drosodd. Anfonwyd copïau papur at bob un a wnaeth gais am un. Cafodd cyfarfod ymgynghori eu cynnal ar gyfer staff, rhieni a disgyblion yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio. Mae manylion a dyddiadau'r cyfarfodydd wedi'u hatodi a'u cynnwys yn Atodiad 1. Mae nodiadau crynodeb yr ystod o achlysuron ymgynghori wedi'u nodi yn Atodiad 1. Mae'r rhain yn cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed, gyda'r ymatebion yn cael eu darparu lle bo'n briodol.

5. Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Nodir bod ymateb da wedi bod i'r broses ymgynghori statudol yma; 127 o holiaduron wedi'u cwblhau, 12 llythyr/e-bost a 3 deiseb. Cyflwynwyd deiseb ar-lein arall gan Gymuned Perthcelyn, ond dydy hi heb gael ei hystyried gan iddi ddod i law ar ôl y dyddiad cau.

Mae Tabl 1 isod yn nodi nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i bob elfen o'r cynnig. Sylwer y gallai nifer yr ymatebion anghytuno ynghylch y dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion Anhwylder Sbectwm Awtistiaeth (ASA) Cyfnod Allweddol 3/4, y 2

ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arfaethedig ac adleoli dosbarth cynnal dysgu Penrhiwceiber o bosibl gael ei ystumio gan fod bron pob sylw a dderbyniwyd yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i'r dosbarth cynnal dysgu yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon ac Ysgol Gynradd Perthcelyn ac nid yr ychwanegiad arfaethedig o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ASA Cyfnod Allweddol 3/4.

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Felly, yn rhan o geisio barn ar y cynnig mewn perthynas â threfniadaeth yr ysgolion, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cwestiwn ynghylch cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol y Cyngor, gan ofyn 'Sut byddai cynnig y Cyngor yn effeithio arnoch chi? Dywedodd pawb a ymatebodd i'r cwestiwn yma y byddai effaith gadarnhaol neu ddim effaith arnyn nhw o ganlyniad i weithredu'r cynnig.

Yn ogystal â hyn, roedd arolwg yr ymgynghoriad, yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, hefyd yn cynnwys cwestiynau pellach i gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol y Cyngor a oedd yn gofyn a fyddai modd i'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol) ac a ydyn nhw mewn unrhyw ffordd, yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Cafodd y cwestiwn 'Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lleihau'r effeithiau negyddol' ei ofyn hefyd. Dywedodd pawb a ymatebodd i'r cwestiynau yma y byddai effaith gadarnhaol neu ddim effaith ar y Gymraeg o ganlyniad i weithredu'r cynnig.

Tabl 1: Ymatebion i'r adliniad arfaethedig o ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu yn RhCT

Mae'r tabl isod yn nodi nifer a math yr ymatebion a gafodd eu cyflwyno ar gyfer pob cynnig unigol o fewn y ddogfen ymgynghori:

Cynnig	Cyfathrebu wedi'i Dderbyn			Natur yr Ymateb		
	Holiadur Ar-lein:	Llythyr / Neges e-bost	Deiseb	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn siŵr
dosbarth cynnal dysgu (Arsylwi ac Asesu) yn Ysgol Gynradd Penrhwi-ceibr i adleoli i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon.	126	0	0	28	85	13
Adleoli'r dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 i 6 ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn i greu darpariaeth pob oed y Cyfnod Cynradd.	127	12	3	45	88	9
Un dosbarth cynnal dysgu Asesu ac Ymyrraeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon.	121	0	0	45	52	24
Dau Ddosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg y Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol.	120	0	0	54	36	30
Un dosbarth cynnal dysgu ASA ar gyfer disgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 11 yn yr ysgol 3 i 16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen.	119	0	0	54	37	28

6. Crynodeb o'r Prif Themâu a Godwyd ac Ymateb yr Awdurdod Lleol

Yn unol â'r Cod, mae crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law yn y tabl isod. Cafodd ymateb ei ddarparu i unrhyw faterion a oedd yn codi o'r ymatebion yma, gan egluro'r rhesymau i gefnogi'r cynnig, ble y bo hynny'n addas. Mae'r themâu allweddol sydd wedi ymddangos o'r gwaith dadansoddi yma fel a ganlyn:

- **Cynnig 1:** dosbarth cynnal dysgu (Arsylwi ac Asesu) yn Ysgol Gynradd Penrhwi-ceibr i adleoli i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon.

Sylwadau/Materion a godwyd	Ymateb i sylwadau/materion a godwyd
Awgrymir symud y dosbarth cynnal dysgu yn Ysgol Gynradd Penrhwi-ceibr i Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn	Ystyriwyd hyn ond ni fyddai angen lleoliad tymor hir mewn dosbarth cynnal dysgu ASA ar bob disgybl yn y dosbarth Arsylwi ac Asesu ac felly ni fydden nhw'n pontio i'r dosbarth ASA ym Mherthcelyn. Yn ogystal, byddai hyn yn golygu y byddai angen i ddisgyblion dosbarth cynnal dysgu ASA Perthcelyn bontio o hyd o

	Berthcelyn i'r dosbarth yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Un o nodau creiddiol y cynnig yw lleihau'r nifer o weithiau mae'n rhaid i ddisgyblion mewn dosbarthiadau cynnal dysgu ASA symud lleoliad.
Cynnig cadarnhaol i symud y dosbarth cynnal dysgu o Benrhiwceiber i Abercynon oherwydd bod cyfleusterau ac adnoddau gwell ar gael i ddisgyblion yn y dosbarth.	Nodir sylwadau cadarnhaol sy'n adlewyrchu'r rhesymeg dros yr adleoli arfaethedig.
Awgrymwyd bod y dosbarth ddim yn cael ei adleoli.	Dydy'r cyfleusterau yn nosbarth cynnal dysgu Penrhiwceiber ddim yn addas i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru ac nid ydyn nhw wedi'u lleoli mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer yr 21 ^{ain} ganrif.
Y nifer o waith mae'n ofynnol i ddisgyblion bontio i ddosbarth arall	<p>Mae pryderon wedi'u codi y bydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion ac efallai y bydd angen i rai disgyblion bontio eto i leoliad arall. Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod pob disgybl sy'n cael mynediad i leoliadau Arsylwi ac Asesu yn gwneud hynny ar sail tymor byr tra bod eu hanghenion yn cael eu hasesu a'u nodi i lywio lleoliad tymor hwy.</p> <p>Bydd cynlluniau pontio yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion. Bydd y cynlluniau yma'n cael eu llunio ar y cyd â rhieni a staff ac yn cynnwys cymorth ychwanegol gan staff arbenigol y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.</p>

- **Cynnig 2:** Adleoli'r dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 3 i 6 ag Anhwylder Sbectrw m Awtistiaeth (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn i greu darpariaeth pob oed y Cyfnod Cynradd.

Sylwadau/Materion a godwyd	Ymateb i'r sylwadau/materion a godwyd
Effaith cynigion ar ddisgyblion sydd i fod i drosglwyddo ym mis Medi 2023 i'r dosbarth cynnal dysgu sydd wedi'i leoli ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon.	Mae gan y newid arfaethedig yn y ddarpariaeth rai goblygiadau i nifer fach o ddisgyblion (3 disgybl ar hyn o bryd) sy'n mynychu dosbarth cynnal dysgu sy'n cael eu heffeithio ond a oedd i fod i bontio i ddosbarth cynnal dysgu Abercynon ym mis Medi 2023. Er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar ddisgyblion unigol, mae rhieni wedi cael yr opsiwn i symud i ddosbarth cynnal dysgu Abercynon neu i aros ym Mherthcelyn gyda chymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu o fewn dosbarth cynnal dysgu

	<p>presennol ASA Perthcelyn ym mis Medi 2023. Bydd y trefniadau yma'n parhau yn eu lle hyd nes y bydd penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â'r cynnig, bydd rhieni wedi cael gwybod yn iawn am oblygiadau'r opsiwn a ddewiswyd ganddyn nhw.</p>
<p>Darpariaeth a chymorth cadarnhaol yn nosbarthiadau cynnal dysgu Abercynon a Perthcelyn</p>	<p>Mae'r ALI wedi bod yn falch iawn o dderbyn adborth mor gadarnhaol ar ddarpariaethau dosbarthiadau cynnal dysgu yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon ac Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn. Mae'n amlwg bod y ddau ddsbarth yn rhan annatod o gymuned yr ysgol, mae staff a disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi ac mae rhieni wrth eu bodd gyda'r cynnydd mae'r disgyblion yn gwneud.</p>
<p>Adnoddau cymunedol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon</p>	<p>Mae pwyslais sylweddol wedi'i godi mewn perthynas â'r manteision canfyddedig o un gymuned i'r llall. Mae'n ofynnol i bob ysgol ddatblygu eu cwricwlwm unigol gan adeiladu ar y cyfleoedd sydd ar gael yn ardal yr ysgol yn rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Oherwydd y gofyniad yma bydd pob cwricwlwm yn unigryw i bob lleoliad ond disgwylir cysondeb o ran y cyfleoedd dysgu a'r ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael mewn dosbarthiadau cynnal dysgu.</p> <p>Mae'n rhaid nodi bod y ddau ddsbarth cynnal dysgu yn ffynnu ac, fel sydd wedi'i nodi uchod, mae wedi bod yn braf cael adborth mor gadarnhaol ynghylch y ddwy ddarpariaeth yn ystod yr ymgynghoriad yma.</p>
<p>Canfyddiad yn y gymuned bod y cynigion o ganlyniad i lythyr a gyflwynwyd i'r ALI</p>	<p>Ymgwymerwyd â'r cynigion yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol adolygu digonolrwydd ei ddarpariaeth ADY. Er bod adborth gan y gymuned bob amser yn cael ei groesawu a'i ystyried, nid yw'r cynigion wedi'u dylanwadu'n annheg gan gynrychiolaethau cymunedol penodol. Mabwysiadwyd agwedd gytbwys a phwyllog gyda thryloywder llawn.</p>
<p>Pryderon ynghylch ansawdd y ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei hystyried fel effeithiol ar hyn o bryd</p>	<p>Does gan yr Awdurdod Lleol ddim tystiolaeth i awgrymu bydd dim modd i'r ysgolion prif ffrwd a fydd yn cynnal y dosbarthiadau cynnal dysgu ar ôl eu hadleoli yn gallu darparu cyfleoedd addysgol ac allgyrsiol cynhwysol ac o ansawdd uchel i ddisgyblion y dosbarthiadau cynnal dysgu. Ar hyn o bryd mae'r ysgolion yn cynnal dosbarthiadau cynnal dysgu yn llwyddiannus a byddai'r adleoliadau sydd wedi'u cynnig dim ond yn gwella'r ddarpariaeth dosbarthiadau</p>

	<p>cynnal dysgu. Mae gan yr ysgolion prif ffrwd sydd wedi'u cynnig carfanau arweinyddiaeth cadarn a phrosesau sicrhau ansawdd sefydledig yn RhCT a Chonsortium Canolbarth y De. Mae gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant weithdrefnau sicrhau ansawdd sydd wedi'u sefydlu ar gyfer monitro a herio cyflawniad pob un o'i dosbarthiadau cynnal dysgu a byddai'r broses yma'n parhau i ddilyn y cynigion i adleoli'r darpariaethau.</p>
<p>Er bod croeso mawr i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ASA, cwestiynwyd lleoliad y dosbarth</p>	<p>Bydd yr adleoliadau sydd wedi'u cynnig yn sicrhau bod modd i ddisgyblion fanteisio ar ddarpariaethau traws-gyfnodol mewn lleoliad sydd â darpariaeth dosbarth cynnal dysgu wedi'i hen sefydlu. Bydd y cynnig hefyd yn creu cyfleoedd gwell ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng y dosbarthiadau cynnal dysgu o fewn cyfnodau gwahanol. Bydd disgyblion a staff yn elwa o'r cyfle yma i rannu arbenigedd.</p>
<p>Codwyd cwestiynau penodol mewn un ymateb i'r ymgynghoriad:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Sut bydd eu plant yn parhau i gael yr un cyfleoedd ag y maen nhw'n eu mwynhau nawr? Megis ymweliadau wythnosol â'r llyfrgell, teithiau i'r siopau lleol, amser yn yr ardd organig, nofio unwaith yr wythnos, dosbarthiadau marchogaeth drwy ddefnyddio bws mini preifat. 2. Pa gynlluniau sydd gan yr awdurdod i gefnogi plant sydd wedi cael profiadau negyddol o ysgol Perthcelyn yn y gorffennol? 3. Pa asesiad effaith sydd wedi'i wneud ar y plant ag ASA y byddai disgwyl iddyn nhw symud 	<p>Yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio gan yr ysgol i adeiladu ar y cyfleoedd sydd ar gael yn ardal yr ysgol. Bydd hyn yn unigryw i bob lleoliad ond disgwylir cysondeb o ran y cyfleoedd dysgu a'r ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael mewn dosbarthiadau cynnal dysgu a thu hwnt.</p> <p>Gan y bydd staff presennol y dosbarth cynnal dysgu yn symud gyda'r disgyblion, byddan nhw'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i sicrhau bod proses bontio gadarn yn cael ei rhoi ar waith. Bydd hyn yn sicrhau bod yna barhad yn y staffio a chymorth i ddisgyblion i gefnogi eu darpariaeth addysgol a lles. Bydd y dosbarth cynnal dysgu yn parhau i gael ei fonitro ar y cyd gan yr ysgol a'r ALI trwy ei brotocol sicrhau ansawdd. Ni chodwyd unrhyw faterion gyda'r ALI ynghylch profiadau negyddol disgyblion. Mae Perthcelyn yn cael ei chydabod fel ysgol dda gan yr ALI a Chonsortium Canolbarth y De.</p> <p>Mae'r holl asesiadau effaith gofynnol wedi'u cynnal, ac mae'n anochel y bydd ail-alinio'r dosbarthiadau cynnal dysgu yn achosi</p>

<p>o'u hysgol bresennol? (Dyma grŵp bach o blant a fydd yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y newidiadau arfaethedig ac roedd y rhieni'n teimlo'n angerddol iawn y bydd y cynigion yn cael effaith ddinistriol ar y grŵp bach yma o blant.)</p>	<p>rhywfaint o aflonyddwch ac ansicrwydd i rieni a disgyblion am gyfnod o amser, er bod profiad o adliniadau blaenorol y dosbarthiadau cynnal dysgu wedi bod yn gadarnhaol. Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn darparu cymorth i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol bosibl. Bydd hyn yn golygu cydweithio rhwng staff presennol y dosbarthiadau cynnal dysgu, staff Mynediad a Chynhwysiant, disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau bod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion addysgol a lles disgyblion.</p>
<p>4. Pa ddarpariaeth ar gyfer plant 7-11 oed fydd yn cael ei gwneud yn y ddarpariaeth newydd yn ysgol Perthcelyn?</p>	<p>Bydd y dosbarth cynnal dysgu newydd yn cael ei sefydlu ac yn cael adnoddau yn unol â darpariaethau cynnal dysgu eraill yn RhCT. Darperir cwricwlwm eang a chytbwys ynghyd â darpariaeth dysgu ychwanegol arbenigol i ddisgyblion yn unol â gofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru a deddfwriaeth ADY ac ymagwedd gyson at ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu ledled y Fwrdeistref Sirol.</p>
<p>5. A fydd y plant yn cael yr un cyfleoedd iard a gofod a mynediad agored i'r awyr agored?</p>	<p>Mae proses sicrhau ansawdd yn ei lle i sicrhau bod tegwch rhwng y gwahanol ddosbarthiadau cynnal dysgu er bod hyn yn cael ei gyflwyno mewn gwahanol ffyrdd yn unol â nodweddion yr ysgol y lleolir y dosbarth ynddi. Bydd disgyblion yn cael yr un cyfleoedd i gael mynediad i ddysgu iard a dysgu yn yr awyr agored. Mae gan Berthcelyn y gallu i gynnwys dosbarth cynnal dysgu arall.</p>
<p>6. A fydd y plant yn dal i gael mynediad agored i ystafell synhwyrdd?</p>	<p>Oes, mae ystafell synhwyrdd yn Ysgol Gynradd Perthcelyn y mae modd ei defnyddio gan holl ddisgyblion y dosbarthiadau cynnal dysgu yn ôl yr angen.</p>
<p>7. Sut mae'r awdurdod lleol yn ymgynghori i gael barn plant a phobl ifainc?</p>	<p>Cynhaliwyd 7 sesiwn gyda'r Cynghorau Ysgol perthnasol drwy gydol y broses ymgynghori. Cyflwynodd 4 rhiant farn eu plentyn hefyd (wedi'i chynnwys yn atodiad 1a)</p>
<p>Cafwyd adborth cymysg ar y cynnig yma.</p> <p>Mae rhieni ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth cynnal dysgu yn Abercynon ar hyn o bryd yn dymuno</p>	<p>Ystyriwyd holl gynodiadau posibl y cynnig cyn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori. Mae swyddogion o'r farn mai'r opsiwn a gyflwynwyd yw'r defnydd mwyaf priodol o adnoddau i adlinio darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu yn RhCT.</p>

<p>i'r dosbarth cynnal dysgu CA2 aros ac adleoli dosbarth cynnal dysgu CS Perthcelyn i Abercynon.</p> <p>Mae rhieni disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth cynnal dysgu ar hyn o bryd ym Mherthcelyn yn cefnogi'r cynnig i adleoli'r ddarpariaeth ASA o Abercynon i Berthcelyn i sicrhau bod darpariaeth yn y cyfnod cynradd ar gael i'w plant heb fod angen symud eto.</p>	
<p>Y nifer o weithiau mae'n rhaid i disgyblion symud</p>	<p>Mae pryderon wedi'u codi y bydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion ac efallai y bydd angen i rai disgyblion symud eto i leoliad arall. Mae hyn wedi'i gydnabod fel effaith negyddol bosibl ond mae wedi'i liniaru gyda'r niferoedd bach iawn sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion (gweler y nodyn uchod). Ar adeg y dyddiad gweithredu arfaethedig ym mis Medi 2024, yn seiliedig ar y derbyniad presennol, mae'n bosibl y bydd y symud yn effeithio ar gyfanswm o 5 disgybl blwyddyn 5. Er mwyn lliniaru risgiau, bydd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei fabwysiadu i gefnogi'r symud. Mae modd i rieni/gwarcheidwaid hefyd ddewis cadw eu plant yn yr un ysgol ond mewn lleoliad prif ffrwd â chymorth os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.</p> <p>Serch hynny, mae'n edrych i'r tymor hwy ac ystyried newid oherwydd y manteision amlwg i genedlaethau'r dyfodol o ddisgyblion. Bydd hyn yn osgoi symud disgyblion sydd ag anghenion sylweddol yn ddiangen, yn sicrhau dilyniant yn eu lleoliadau addysgol ac yn sicrhau bod nifer uwch o ddosbarthiadau cynnal dysgu arbenigol yn rhoi tegwch i ddisgyblion mewn dosbarthiadau cynnal dysgu fel eu bod nhw'n aros mewn un lleoliad nes iddyn nhw gael eu hadleoli i addysg uwchradd yn unol â'u cyfoedion yn y brif ffrwd.</p> <p>Bydd cynlluniau pontio yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion. Bydd y cynlluniau yma'n cael eu llunio ar y cyd â rhieni a staff ac yn cynnwys cymorth ychwanegol gan staff arbenigol y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.</p>

- **Cynnig 3: Un** dosbarth cynnal dysgu Asesu ac Ymyrraeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon.

Sylwadau/Materion a godwyd	Ymateb i'r sylwadau/materion a godwyd
Cafwyd ymatebion cadarnhaol ynghylch y capasiti cynyddol y byddai'r dosbarth cynnal dysgu yn ei ddarparu er bod ymatebwyr yn holi a oedd angen rhagor o gapasiti.	Nodir sylwadau cadarnhaol sy'n adlewyrchu'r rhesymeg dros y cynnig i wella'r ddarpariaeth.
Adborth cymysg ynghylch lleoliad y dosbarth cynnal dysgu newydd arfaethedig. Derbyniwyd ymatebion yn cefnogi sefydlu dosbarth cynnal dysgu Blynyddoedd Cynnar yn Abercynon. Cafwyd adborth hefyd ynghylch sefydlu'r dosbarth cynnal dysgu mewn gwahanol leoliadau.	Ystyriwyd holl gynodiadau posibl y cynigion cyn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori. Mae swyddogion yn credu mai'r opsiwn a gyflwynwyd yw'r defnydd mwyaf priodol o adnoddau i adlinio'r ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu yn RhCT.
Nodwyd bod y posibilrwydd o symud disgyblion eto yn bryder.	Yn anffodus, mae'n ymddangos bod rhywfaint o ddryswch wedi bod gyda'r dosbarth cynnal dysgu ychwanegol arfaethedig yn Abercynon. Mae hyn yn sefydlu dosbarth cynnal dysgu newydd felly ni fydd unrhyw ddisgyblion yn cael eu heffeithio gan y cynnig.

- **Cynnig 4:** Dau ddosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg y Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol.

Sylwadau/Materion a godwyd	Ymateb i'r sylwadau/materion a godwyd
Cytuno'n gyffredinol gyda'r angen am ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg.	Yn gyffredinol roedd ymatebion yn cydnabod yr angen am ddosbarthiadau cynnal dysgu ychwanegol yn RhCT, er ei bod hi'n amlwg bod rhai ymatebion yn drysu rhwng gwahanol elfennau'r cynigion.
Croesewir dosbarthiadau cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg ond mynegwyd pryderon nad oedd gan y dosbarthiadau ddynodiad ADY penodol.	Mae'r sylw wedi'i nodi. Mae Llywodraeth Cymru a Deddf ALNET 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol adolygu'n barhaus ddigonolrwydd ei Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd a gweithio'n rhagweithiol tuag at ddatblygu system ADY gwbl ddwyieithog dros amser. Bydd y dosbarth cynnal dysgu arfaethedig yn rhoi cymorth i ddisgyblion sydd ag ADY

	<p>sylweddol. Caiff meini prawf lleoliad eu llunio a'u cytuno wrth ymgynghori â'r ysgol. Dyma gydnabod y gall fod angen mwy nag 1 ardal ystafell ddosbarth ar y dosbarth cynnal dysgu ar gyfer ymyriadau i helpu i gefnogi pob dysgwr, a chymorth ac arbenigedd digonol i gefnogi disgyblion ag ystod o anghenion. Bydd anghenion y disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth yn cael eu monitro'n agos gan yr Awdurdod Lleol ar y cyd â'r ysgol.</p>
--	--

- **Cynnig 5:** Un ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu i ddisgyblion Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11 sydd ag Anhwyllder Sbectrwem Awtistiaeth yn yr ysgol newydd i ddisgyblion rhwng 3 a 16 oed ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen.

Sylwadau/Materion a godwyd	Ymateb i'r sylwadau/materion a godwyd
Ystyriwyd bod y cynnydd yn narpariaeth Cyfnod Allweddol 3/4 yn gadarnhaol, ond teimlai ymatebwyr fod angen rhagor o ddosbarthiadau cynnal dysgu.	Yn unol â Chod ADY 2021, mae gan yr ALI ddyletswydd statudol i adolygu digonolrwydd ei ddarpariaeth. Felly, bydd adolygiadau pellach yn cael eu cynnal i sicrhau bod darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu yn RhCT yn cwrdd â gofynion disgyblion ag ADY.

Codwyd y themâu cyffredinol canlynol ar draws yr holl gynigion:

Sylwadau/Materion a godwyd	Ymateb i'r sylwadau/materion a godwyd
Rheswm dros newid	<p>Sail hyn yw:</p> <p>Dadansoddiad data o anghenion disgyblion cyfredol ac anghenion disgyblion rhagamcanol i sicrhau bod y nifer o ddosbarthiadau cynnal dysgu yn diwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi.</p> <p>Cyfle i wella nifer y dosbarthiadau cynnal dysgu arbenigol mewn lleoliadau prif ffrwd i leihau trosglwyddo disgyblion rhwng lleoliadau arbenigol mewn ysgolion gwahanol yn ddiangen. Byddai hyn yn sicrhau tegwch ar gyfer disgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol er mwyn aros mewn un lleoliad ysgol, fel sydd ar gael i'w cyfoedion prif ffrwd, yn gyffredinol.</p> <p>Sicrhau bod gan nifer uwch o ddosbarthiadau cynnal dysgu a'u disgyblion fynediad i ddarpariaeth arbenigol mewn lleoliadau ysgol sydd wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol yn</p>

	rhan o Raglen Foderneiddio Ysgolion yr 21 Ganrif.
Dydy'r cynigion ddim er lles y disgybl	Mae'r ALI o'r farn bod lleihau'r nifer o weithiau mae'n rhaid i ddisgyblion symud ysgolion er lles gorau'r disgybl. Bydd y capasiti uwch a geir o'r dosbarthiadau cynnal dysgu ychwanegol yn sicrhau bod mwy o blant sydd angen lleoliadau arbenigol yn gallu cael mynediad atyn nhw mewn modd amserol. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod y bydd rhywfaint o aflonyddwch tymor byr i nifer fach o ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio.

8. Ymateb Estyn i'r cynnig gan Rondda Cynon Taf ynghylch dosbarthiadau cynnal dysgu a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2024.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 – Safonau a Threfniadaeth Ysgolion, mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi'i ddarparu'n llawn yn Atodiad 2. Does dim gofyn bod Estyn yn gweithredu yn unol â'r Cod, a dydy'r Ddeddf ddim yn gosod unrhyw ofynion ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, ac yntau'n gorff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar fanteision cyffredinol y cynnig o ran trefniadaeth yr ysgol yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi ymateb i'r wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y cynigydd, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig. Mae'r ymateb yn adrodd y canlynol fel crynodeb ***'Mae Estyn yn croesawu cynllun yr awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn cydnabod rhinwedd llawer o'r strategaethau yn yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys cynyddu darpariaeth arbenigol amser llawn ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn agwedd a nodwyd yn yr arolygiad diweddar o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Yn gyffredinol, mae Estyn o'r farn bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod cynigion yn debygol o wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn yr awdurdod lleol. Serch hynny, mae rhai agweddau o'r cynigion angen eu cryfhau a chaiff y rhain eu nodi yn ein hymateb.***

Yn unol â'r Cod, mae'r rhannau o'r ymateb sy'n gofyn am eglurdeb pellach wedi'u nodi yn y tabl isod:

Sylw Estyn
<i>Nid yw'n glir a oes unrhyw drefniadau interim arfaethedig, a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer eu gweithredu.</i>
Eglurhad

Dosbarth Cynnal Dysgu Perthcelyn – mae 3 disgybl wedi'u lleoli ym Mherthcelyn ar hyn o bryd sydd i fod symud i Abercynon ym mis Medi 2023 yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion. Rhoddwyd y dewis i rieni naill ai aros ym Mherthcelyn nes bod canlyniad yr ymgynghoriad yn hysbys neu symud i'r dosbarth cynnal dysgu yn Abercynon ym mis Medi 2023. Mae pob un o'r 3 rhiant wedi dewis aros yn y dosbarth cynnal dysgu ym Mherthcelyn. O ganlyniad i hyn, bydd Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu llawn amser ychwanegol yn ei le i wella capasiti staffio'r dosbarth dros dro.

Sylw Estyn

Mae pum cynnig ar wahân yn yr ymgynghoriad ac mae'r ddogfen yn gwneud datganiadau cyffredinol yn unig am anfanteision, megis 'Gallai adleoli'r dosbarthiadau cynnal dysgu a enwyd achosi rhywfaint o aflonyddwch cyfyngedig i'r ysgolion cynnal arfaethedig.' Nid yw'r ymgynghoriad yn ddigon clir ynghylch risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chynigion penodol na sut y bydd yr awdurdod lleol yn ymdrin â'r rhain. Nid yw'r cynnig yn nodi'n glir sut y bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod yr aflonyddwch i ddysgwyr yn cael ei leihau, er enghraifft sut y bydd yn cefnogi'r disgyblion hynny sydd ar hyn o bryd mewn unrhyw un o'r lleoliadau sy'n cael eu symud i ddarpariaeth wahanol.

Eglurhad

Mae risgiau cyffredinol wedi'u nodi yn y dogfennau ymgynghori a'r asesiadau effaith cysylltiedig. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig i agor/adleoli dosbarthiadau cynnal dysgu yn cyflawni gwelliant sylweddol o ran ansawdd y ddarpariaeth addysgol i ddisgyblion ag ADY, gan gael effaith gadarnhaol sylweddol ar gyflawniad addysgol disgyblion ac ysbryd staff. Bydd y cynigion yn sicrhau y bydd pob dosbarth cynnal dysgu yn cydymffurfio â gofynion cyfredol deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu. Bydden nhw'n gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn ysgolion cymunedol cwbl integredig.

Mewn ymateb i'r ymholiadau a wnaed, manylir ar risgiau penodol posibl i bob cynnig:

Gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (agor 2 ddosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg cyfnod cynradd yn Rhydfelen):

- Anhawster wrth recriwtio staff arbenigol cyfrwng Cymraeg i weithio yn y dosbarth cynnal dysgu. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw staff ac mae ymrwymiad yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor i wella'r gweithlu cyfrwng Cymraeg arbenigol i ddiwallu anghenion disgyblion ADY yn ddwyieithog.
- Os na chaiff y cynnig ei symud ymlaen ni fydd RhCT yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i ddarparu cymorth i ddisgyblion ADY drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Amhariad posibl i ddisgyblion sy'n defnyddio gwasanaeth peripatetig cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer lleoliad yn y dosbarth cynnal dysgu a allai ddymuno mynychu darpariaethau dynodedig y dosbarth cynnal dysgu . I leihau hyn bydd yr ALI yn cynnwys rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion perthnasol fel cyfranogwr gweithredol mewn trafodaethau ynghylch newid lleoliad a phontio os caiff y cynigion eu datblygu.

Gwella ASA CA3/4 (agor dosbarth cynnal dysgu ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd newydd y Ddraenen Wen)

- Os na chaiff y cynnig ei symud ymlaen ni fydd digon o ddarpariaeth ASA CA3/4 i fodloni anghenion disgyblion.

Gwella'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar (sefydlu dosbarth cynnal dysgu asesu'r blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol).

- Os na chaiff y cynnig ei symud ymlaen ni fydd digon o ddarpariaeth arbenigol blynyddoedd cynnar i fodloni anghenion disgyblion.

Adleoli'r dosbarth cynnal dysgu arsylwi ac asesu ym Mhenrhiwceibr:

- Mae'r dosbarth cynnal dysgu yma wedi'i gynllunio i ddarparu lleoliadau tymor byr. O'r herwydd, mae disgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth ar hyn o bryd yn debygol iawn o fod wedi symud ymlaen yn naturiol i'w lleoliad addysgol tymor hir erbyn y dyddiad gweithredu. I'r rhai sy'n dal i fod yn y dosbarth cynnal dysgu pan mae'r newid yn cael ei weithredu, cydnabyddir y gallai fod tarfu ar y disgyblion sy'n symud i'r lleoliad newydd. I liniaru hyn, bydd y staff presennol yn adleoli gyda'r dosbarth a'r disgyblion i roi dilyniant gofal a chymorth a bydd proses bontio estynedig gadarn wedi'i chynllunio yn cael ei rhoi ar waith. Bydd hyn hefyd yn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth addysgol.
- Os na fydd y cynnig yn symud ymlaen, ni fydd disgyblion yn gallu cael mynediad at amgylchedd 21^{ain} ganrif priodol oherwydd cyfyngiadau'r amgylchedd ffisegol presennol.

Creu darpariaeth dosbarth cynnal dysgu cyfnod cynradd ASA (adleoli dosbarth cynnal dysgu Abercynon i ddosbarth cynnal dysgu Perthcelyn):

- Os na fydd y cynnig yn mynd yn ei flaen yna bydd disgyblion yn parhau i orfod ymgymryd â rhagor o symud o gymharu â chyfoedion prif ffrwd
- Cydnabyddir y bydd aflonyddwch i'r disgyblion sy'n symud i'r lleoliad newydd. Serch hynny, i liniaru hyn bydd y staff presennol yn adleoli gyda'r dosbarth a'r disgyblion i ddarparu parhad gofal a chymorth a bydd proses bontio estynedig gadarn wedi'i chynllunio yn cael ei rhoi ar waith. Bydd hyn hefyd yn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth addysgol.
- Gellid ystyried trefniadau amgen ar gyfer disgyblion unigol, gan gynnwys disgyblion sy'n aros yn eu hysgol bresennol ond mewn cyd-destun prif ffrwd â chymorth – cyfeiriwch at y casgliad isod.
- Ar gyfer disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu dosbarth cynnal dysgu Abercynon ac efallai angen teithio ymhellach i Berthcelyn, bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â'r Polisi Teithio Disgyblion. Nodir y bydd y dosbarth cynnal dysgu newydd yn nes at gyfeiriad cartref rhai disgyblion.

Bydd cynlluniau pontio yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion. Bydd y cynlluniau yma'n cael eu llunio ar y cyd â rhieni a staff ac yn cynnwys cymorth ychwanegol gan staff arbenigol y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.

Sylw Estyn

Mae'r cynigiwr yn datgan yn unig bod dewisiadau eraill wedi'u hystyried, heb roi gwybodaeth glir ynghylch beth, na pham, y cawsant eu diystyru.

Eglurhad

Yng ngoleuni gofynion y Ddeddf ALNET byddai cynnal y status quo yn golygu na fyddai RhCT yn cyflawni ei dyletswydd statudol i adolygu digonolrwydd ei darpariaeth ADY. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r Cyngor yn cwrdd ag anghenion plant a phobl ifainc ag ADY, bydd rhagor o bwysau ar rieni/gwarcheidwaid, cynnydd mewn tribiwnlysoedd ADY a chynnydd yn y gost o osod disgyblion mewn darpariaethau arbenigol y tu allan i'r sir.

Mae angen amlwg am y ddarpariaeth yma yn Rhondda Cynon Taf, a byddai mynd i'r afael â'r mater yma er lles gorau plant a phobl ifainc. Cafodd y syniad o ailgyfeirio adnoddau er mwyn gwella gallu ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion mewn ysgolion cymunedol lleol ei ystyried. Serch hynny, yng ngoleuni difrifoldeb a chymhlethdod anghenion canfyddedig disgyblion ni ystyriwyd bod hyn yn briodol gan y bernir bod angen darpariaeth arbenigol bwrpasol ar y disgyblion.

Rhodddwyd ystyriaeth i ehangu'r ddarpariaeth mewn dosbarthiadau cynnal dysgu sefydledig, fodd bynnag, diystyrwyd hyn oherwydd diffyg gallu ffisegol.

Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i archwilio darpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r sir. Serch hynny, byddai hyn yn golygu cynnydd sylweddol yng nghost lleoliadau a thrafnidiaeth ac ni fyddai'n rhoi ateb amser hir i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu system ddwyieithog.

Yn hanesyddol, fel dewis arall yn lle dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg, mae'r ALI wedi gweithredu dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg rhithwir lle mae disgyblion yn cael eu cefnogi gan staff arbenigol peripatetig yn eu hysgolion prif ffrwd. Yng ngoleuni adborth gan y sector cyfrwng Cymraeg a'r gofyniad ar ALNET i ddatblygu system gwbl ddwyieithog, ystyrir yn awr ei bod hi'n briodol sefydlu dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd i ddarparu darpariaeth decach yn unol â darpariaeth cyfrwng Saesneg.

Mae'r ALI yn gweithredu Gwasanaeth Pontio Gwell yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion cyn oedran ysgol statudol sy'n mynd i ddarpariaeth feithrin prif ffrwd. Wrth gydnabod llwyddiant y dull yma o adeiladu gallu lleoliadau prif ffrwd i gefnogi disgyblion ag ADY sy'n dod i'r amlwg, mae llawer o ddisgyblion BC wedi'u nodi fel rhai sydd angen lefel uwch o Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY) y mae modd ei ddarparu yn y brif ffrwd. Ers sefydlu'r Fforwm Blynyddoedd Cynnar ym mis Medi 2021 i gydymffurfio â gofynion statudol newydd y Ddeddf ALNET ar gyfer plant 0-3 oed, mae data hyd at 30 Ionawr 2023 yn dangos bod 294 o ddisgyblion wedi cael eu trafod gan y Fforwm. O'r disgyblion hyn, dyrannwyd lleoliadau i 40 ohonyn nhw mewn lleoliadau arbenigol ac mae 14 o ddisgyblion ychwanegol wedi newid lleoliad o ddarpariaeth prif ffrwd i ddarpariaeth arbenigol yn dilyn cyfnod o asesu.

Ni ystyriwyd unrhyw ddewisiadau amgen i agor y ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu ychwanegol ar safle newydd y Ddraenen Wen oherwydd y galw sylweddol, difrifoldeb anghenion disgyblion a'r problemau presennol o ran capasiti ar gyfer lleoliadau ASA arbenigol yn ardal Taf-elái o gymharu ag ardaloedd Cwm Rhondda a Chwm Cynon.

Ystyriwyd mai Abercynon oedd y lleoliad gorau ar gyfer 2 ddosbarth cynnal dysgu blynyddoedd cynnar oherwydd ei leoliad daearyddol mewn perthynas â darpariaethau blynyddoedd cynnar eraill yn y Fwrdeistref Sirol ynghyd â'i amgylchedd 21^{ain} ganrif.

Penderfynodd hyn yn ei dro y byddai darpariaeth ASA bob oed hefyd yn cael ei chynnig ar safle ysgol Perthcelyn.

Sylw Estyn

Nid oes unrhyw ragamcanion nac amcangyfrifon ar gyfer niferoedd disgyblion ag ADY yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol yn cynnig creu 18 o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY yn Rhydfelen ond nid yw wedi nodi'r galw am y lleoedd hynny. Yn yr un modd, mae dwy o'r ysgolion yn y cynnig yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, ond nid yw'r cynigiwr wedi darparu amcangyfrif o niferoedd disgyblion rhagamcanol.

Eglurhad

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, cefnogodd Carfan Anghenion Cymhleth Cymru 12 disgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 11. Bydd disgyblion sy'n defnyddio'r model dosbarth rhithwir cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn cael cynnig lleoliad mewn dosbarth cyfrwng Cymraeg. Mae tystiolaeth o gynnydd yn y ceisiadau i gynnwys staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant. Symudodd 7% o ddisgyblion sy'n defnyddio darpariaeth dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd o ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'n anodd nodi'r galw posibl am ddarpariaeth dosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg gan fod hon yn ddarpariaeth sydd newydd ei sefydlu, ac felly nid oes gennym ni ddata tueddiadau hanesyddol.

Ers sefydlu'r Fforwm Blynnyddoedd Cynnar ym mis Medi 2021 i gydymffurfio â gofynion statudol newydd y Ddeddf ALNET ar gyfer plant 0-3 oed, roedd data hyd at 30 Ionawr 2023 yn dangos bod 294 o ddisgyblion wedi cael eu trafod gan y Fforwm. O'r disgyblion hyn, dyrannwyd lleoliadau i 40 ohonyn nhw mewn lleoliadau arbenigol ac mae 14 o ddisgyblion ychwanegol wedi newid lleoliad o ddarpariaeth prif ffrwd i ddarpariaeth arbenigol yn dilyn cyfnod o asesu. Mae'n bwysig nodi bod y data yma'n ymwneud â disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Sylw Estyn

Serch hynny, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn rhoi gwybodaeth ddigon clir am ystod o agweddau addysgol ar y cynigion fel y'u nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, megis effaith y cynigion ar ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Eglurhad

Mae'r dosbarthiadau cynnal dysgu yn cael eu rheoli ar y cyd gan bennaeth yr ysgol lle mae'r dosbarth cynnal dysgu a staff canolog y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant. Mae rolau a chyfrifoldebau'r uchod wedi'u diffinio'n glir yng Nghytundeb Dosbarth Cynnal Dysgu Ysgol yr ALI. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â'r cwricwlwm ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae proses sicrhau ansawdd gadarn yn ei lle i sicrhau bod yr ysgol a staff y dosbarth cynnal dysgu yn cael eu cefnogi'n dda a bod darpariaeth y dosbarth yn bodloni'r holl ofynion statudol angenrheidiol.

Safonau

Bydd y dosbarth cynnal dysgu wedi'u lleoli mewn amgylcheddau dysgu hyblyg modern a bydd ganddyn nhw fynediad i fannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o

weithgareddau cwricwlwm. Yn ogystal, bydd cynyddu nifer y dosbarthiadau cynnal dysgu yn sicrhau bod nifer fwy o ddisgyblion ag ADY sylweddol a chymhleth yn gallu manteisio ar ddarpariaeth dysgu ychwanegol sy'n gwella eu cynnydd mewn perthynas â'u targedau unigol a'u manau cychwyn. Caiff hyn ei fonitro trwy broses sicrhau ansawdd ar gyfer dosbarthiadau cynnal dysgu mewn cydweithrediad â'r pennaeth.

Lles ac agweddau tuag at ddysgu

Bydd mynediad at ddarpariaethau dysgu arbenigol lle mae modd diwallu anghenion unigol disgyblion ag ADY cymhleth trwy ddarpariaeth dysgu ychwanegol unigol mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a staff. Bydd cynyddu'r ddarpariaeth arbenigol a gynhelir gan ysgolion prif ffrwd yn galluogi disgyblion ag ADY i chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol ochr yn ochr â'u cyfoedion prif ffrwd.

Bydd darpariaeth dosbarth cynnal dysgu a gynlluniwyd i ddarparu dysgu ychwanegol arbenigol yn sicrhau rhagor o gyfranogiad ac ymgysylltiad gan ddisgyblion yn eu dysgu ac yn hyrwyddo gwydnwch. Cyflawnir hyn trwy gynllunio manwl pwrpasol yn unol ag anghenion canfyddedig disgyblion.

Profiadau addysgu a dysgu

Bydd y dosbarthiadau cynnal dysgu yn darparu cwricwlwm cytbwys ar bob cam yn unol â Chwricwlwm newydd Cymru – 2022. Dylai amgylchedd dysgu yn yr 21^{ain} ganrif hefyd roi rhagor o hyblygrwydd i ddisgyblion ac felly rhagor o ddewis a chyfleoedd yn eu profiad dysgu. Bydd y dosbarthiadau cynnal dysgu yn darparu ystod o strategaethau ac ymyriadau i ddiwallu anghenion disgyblion unigol ag anawsterau sylweddol gyda mynediad i ystod eang o adnoddau amlsynhwyraidd a digidol i gyfoethogi eu dysgu. Bydd asesu a chynllunio pwrpasol i ddiwallu anghenion unigol, er enghraifft trwy Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr ALI, yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd o fannau cychwyn unigol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Bydd dosbarthiadau cynnal dysgu yn canolbwyntio'n gryf ar gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion a rhoi cyfleoedd i gydweithio â chyfoedion prif ffrwd yn eu hysgolion prif ffrwd lle lleolir eu dosbarth. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd i gael mynediad i weithgareddau yn eu cymuned leol.

Arwain a rheoli

Ymgwymerir ag arwain a rheoli'r dosbarthiadau cynnal dysgu ar y cyd gan Bennaeth yr ysgol sy'n cynnal y dosbarth a Chydlynwyr y Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i sicrhau y cyflawnir disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion. Ategir hyn gan broses sicrhau ansawdd gynhwysfawr a chytundeb dosbarthiadau cynnal dysgu rhwng yr ALI / ysgol sy'n manylu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ALI, yr ysgolion cynnal a staff y dosbarthiadau cynnal dysgu.

8. Asesiad o'r Ymgynghoriad

O ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae'r cynigion wedi cael eu hailystyried ac mae'r materion a ganlyn wedi'u hailasesu:

- Effaith debygol y cynnig ar ansawdd a safon yr addysg;

- Yr effaith debygol ar y gymuned; ac
- Effaith debygol ar newid trefniadau teithio.

Ar ôl ystyried ymhellach, mae'r cynnig yn dal i fod yr un mwyaf priodol ac o'r herwydd mae mân addasiadau wedi'u gwneud i Gynigion 1 a 2. Mae'r dyddiad gweithredu ar gyfer y ddau gynnig wedi'i ddiwygio i fis Medi 2024.

9. Casgliad

Bydd y cynigion i adlinio'r ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu yn sicrhau bod RhCT wedi ymgymryd â'i ddyletswydd statudol o dan Ddeddf ALNET (2018) i adolygu trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn y fwrdeistref sirol ac wedi nodi'r camau angenrheidiol i sicrhau digonolrwydd ei ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol sydd angen lleoliad arbenigol.

Mae'r cynigion yn cefnogi cyflawni Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) RhCT ac un o nodau craidd y Ddeddf ALNET drwy weithio tuag at ddatblygu system ADY gwbl ddwyieithog yn y fwrdeistref sirol.

Bydd y cynigion yn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, a bydd y dosbarthiadau yn cael eu hadleoli i ddau safle gwell sydd wedi cael budd o raglen foderneiddio Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, argymhellir bod yr Aelodau'n cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori amgaeedig ar unwaith a chytuno i roi cymeradwyaeth i swyddogion gyhoeddi'r Hysbysiadau Statudol priodol i symud ymlaen â Chynigion 1 a 2 gyda'r diwygiadau canlynol:

Cynnig 1 (diwygiedig): Symud y dosbarth cynnal dysgu Arsylwi ac Asesu yn Ysgol Gynradd Penrhiwceibr i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Daw hyn i rym o fis Ebrill 2024. *(Diwygiwyd o Ebrill 2024)*

Cynnig 2 (diwygiedig): Trosglwyddo'r dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 3-6 ag Anhwylder Sbectrwam Awstisiaeth (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd yn Ysgol Gynradd Gymunedol Perthcelyn, i ddod i rym o fis Medi 2024. *(Diwygiwyd o Ebrill 2024)*

Bydd hyn yn lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion.

Argymhellir bod yr Aelodau hefyd yn cytuno i gyhoeddi Hysbysiadau Statudol i symud ymlaen gyda Chynigion 3, 4 a 5 heb addasiadau fel a ganlyn:

Cynnig 3: Sefydlu un dosbarth cynnal dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i ddod i rym o fis Ebrill 2024.

Cynnig 4: Sefydlu dau ddosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg Cyfnod Cynradd yn Ysgol Awel Taf, yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol, i ddod i rym o fis Medi 2024.

Cynnig 5: Sefydlu un dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 7-11 ag ASA yn Ysgol Afon Wen, yr ysgol 3-16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen, i ddod i rym o fis Medi 2024.

Amserlen Sesiynau Ymgynghori

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp – Disgyblion/Staff/Rhieni	Dyddiad
Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon	Cyngor yr Ysgol	12 Mehefin 2023
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn	Cyngor yr Ysgol	13 Mehefin 2023
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Penrhiwceiber	Cyngor yr Ysgol	14 Mehefin 2023
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol 3 i 16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen	Staff/Corff Llywodraethu Dros Dro	15 Mehefin 2023
	Rhieni	16 Mehefin 2023
Ysgol cyfrwng Cymraeg newydd		
Ysgol Gynradd Heol y Celyn	Cyngor yr Ysgol	15 Mehefin 2023
Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton	Cyngor yr Ysgol	22 Mehefin 2023
Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen	Cyngor yr Ysgol	15 Mehefin 2023
Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen	Cyngor yr Ysgol	15 Mehefin 2023

Nodiadau Achlysuron Ymgynghori

Achlysuron Ymgynghori 2023 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon		
Dyddiad	12/06/2023	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	23
Nifer y disgyblion	13	Nifer y Rhieni:	14
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol, Staff/Corff Llywodraethol, Rhieni	Nifer y Llywodraethwyr:	8
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Ceri Jones, Lisa Carter, Kate Hill, Iwan Griffiths		
Cyngor yr Ysgol			
<p>Darparodd Ceri a Lisa drosolwg o'r cynigion ar gyfer Abercynon. Mae crynodeb o'r sylwadau a wnaed isod.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cododd disgybl bryderon bod disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu wedi treulio eu bywyd ysgol yn Abercynon felly dydyn nhw ddim yn gwybod a hofffen nhw gael ysgol newydd. Fe ddywedon nhw hefyd y gallai disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu gael problemau wrth gyrraedd yr ysgol oherwydd y symud. Eglurodd Kate effeithiau trosglwyddo ar ddisgyblion ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) a soniodd am bwysigrwydd lleihau trosglwyddiadau ac y gallai fod gan ddisgyblion fynediad at gludiant o dan Bolisi Cludiant Cartref Ysgol yr Awdurdod Lleol. • Roedd pob aelod o'r cyngor ysgol yn meddwl bod y cynigion yn syniad da er bod gyda nhw rai pryderon. • Soniodd y disgyblion am gyfeillgarwch gyda disgyblion o'r dosbarth ASA ac roedden nhw'n credu efallai na fydd modd iddyn nhw eu gweld nhw eto. • Roedd aelod o'r cyngor ysgol o'r farn y gallai'r disgyblion ASA gael problemau ymgartrefu gyda ffrindiau newydd ac y gallai hynny olygu na fyddan nhw'n dysgu dim. Mae modd i ffrindiau hefyd gefnogi addysg y disgyblion ASA. • Dywedodd y cyngor ysgol fod y disgyblion ASA yn dangos eu gwaith i staff eraill/dosbarth. • Dywedodd y cyngor ysgol fod disgyblion ASA hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, yn ogystal â chwblhau gwaith mewn ystafelloedd dosbarth. • Cododd y disgyblion bryderon ynghylch "Athrawon cysuro" o bosibl ddim yn symud gyda'r disgyblion. Cadarnhaodd Kate y bydd yr athrawon ASA yn symud gyda'r disgyblion. • Holodd un disgybl am "leoliad rhanedig". Soniodd Kate eto am leihau trosglwyddiadau a sut y gallai lleoliad rhanedig amharu ar ddisgyblion ASA a'u cynhyrfu. • Soniodd y cyngor ysgol fod disgyblion ASA yn defnyddio'r offer awyr agored megis cyrtiau tennis a'r buarthau gyda disgyblion o'r dosbarthiadau eraill. 			

- Teimla'r cyngor ysgol fod agor dosbarthiadau iau yn dda gan fod modd iddyn nhw wneud ffrindiau a'u cadw trwy gydol eu hamser yn yr ysgol.
- Bernir bod cynnwys dosbarthiadau prif ffrwd gyda'r disgyblion ASA yn gadarnhaol gan fod y disgyblion o fudd i'r ysgol.
- Mae disgyblion Hazel yn "ddoniol iawn" ac yn gymeriadau o gwmpas yr ysgol. Mae gan yr holl ddisgyblion ddiddordebau arbennig.
- Mae disgyblion y dosbarth yn cael eu cynnwys mewn gymnasteg, sy'n golygu y gallen nhw ddysgu ochr yn ochr â disgyblion eraill.
- Mae disgyblion Hazel yn mwynhau gweithgareddau megis actio/dawnsio.

Staff / Corff Llywodraethu

- Rhoddodd Ceri drosolwg o'r cynigion. Mae crynodeb o'r sylwadau a wnaed isod.
- Codwyd cwestiwn beth fydd yn digwydd i'r athrawon os bydd y cynigion yn cael eu derbyn. Cadarnhaodd Ceri y byddai staff parhaol y Dosbarth Cynnal Dysgu yn adleoli ochr yn ochr â disgyblion er mwyn lleihau straen ac amharu ar broses bontio'r disgyblion.
 - A ystyriwyd dewis arall ar gyfer ysgol Penrhiwceiber? Ymatebodd Ceri mai'r opsiwn a ffeirir, oherwydd y cyfyngiadau ar yr amgylchedd awyr agored, yw adleoli'r ddarpariaeth i amgylchedd Ysgol y 21^{ain} Ganrif.
 - Mynegwyd pryderon ynglŷn â throsglwyddo disgyblion hŷn sydd yn y dosbarth ar hyn o bryd o Abercynon gan y byddai pontio ychwanegol ac effaith negyddol posibl hyn. Dywedodd y staff y bydd disgyblion yn profi pryder a straen o ganlyniad i'r symud arfaethedig.
 - Cafwyd deialog ynghylch y Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Sylfaen Asesu ac Arsylwi newydd, gan gydnabod bod lleoliad yn y Dosbarth Cynnal Dysgu yma yn un tymor byr ac y byddai'r disgybl yn trosglwyddo ymhellach unwaith y byddai lleoliad addas wedi'i nodi.
 - Pam nad oes modd i' dosbarth fynd o Benrhiwceiber i Berthcelyn? Ymatebodd Ceri y byddai gosod y dosbarth yn Abercynon yn arwain at ddalgylch daearyddol mwy i gynnwys rhan isaf Rhondda, Cynon a Thaf. Mae'r ystafell ddosbarth a nodir yn ysgol Perthcelyn yn fwy addas ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn hytrach na'r Blynnyddoedd Cynnar.
 - Mynegwyd pryderon ynghylch cludiant disgyblion, a dywedodd Ceri y byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol.
 - Teimlai'r staff fod yna amcangyfrif rhy isel o faint mae disgyblion dosbarth Hazel yn cael eu cynnwys yn yr ysgol. Maen nhw'n teimlo bod y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael ei drin gan yr Awdurdod Lleol fel endid ar wahân. Mae disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn elwa o arferion cynhwysol yr ysgol. Ailadroddodd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant fod dosbarthiadau'n cael eu hystyried yn rhan o'r ysgol ac yn dod â manteision i ddarpariaeth prif ffrwd.
 - Tynnodd y grŵp sylw at bwysigrwydd a manteision gweithgareddau yn y gymuned i ddisgyblion dosbarth Hazel. Teimlai'r grŵp fod y cyfleusterau cymunedol yn well yn Abercynon na Pherthcelyn. Ymatebodd Kate, yn unol â chwricwlwm newydd i Gymru, fod y cwricwlwm wedi'i gynllunio gan yr ysgol i adeiladu ar y cyfleoedd sydd ar gael yn ardal yr ysgol. Bydd hyn yn unigryw i bob lleoliad ond disgwylir cysondeb o ran y cyfleoedd dysgu a'r ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a thu hwnt.
 - Credai'r staff y bydd bylchau yn arbenigedd staff Abercynon os bydd staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn symud. Amlygwyd bod staff y Dosbarth Cynnal Dysgu

yn cael eu cyflogi'n ganolog ac mae modd eu hadleoli i unrhyw Ddosbarth Cynnal Dysgu yn ôl yr angen.

- Teimlai'r grŵp y byddai cyfleoedd cynhwysiant ar gyfer y dosbarth Arsylwi Blynnyddoedd Cynnar arfaethedig yn wahanol i'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer dosbarth Hazel.
- Gofynnodd aelod o'r corff llywodraethu a fu'r adleoliadau blaenorol yn llwyddiannus? Cadarnhaodd Ceri eu bod nhw wedi bod yn llwyddiannus.
- Teimlai'r grŵp fod myfyrwyr hŷn mewn sefyllfa well mewn ysgolion mwy gan fod potensial ar gyfer cyfleoedd ehangach. Esboniodd Kate fod proses sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod tegwch rhwng y gwahanol Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu, er bod hyn yn cael ei gyflwyno mewn ffyrdd gwahanol yn unol â nodweddion yr ysgol y lleolir y dosbarth ynddi. Ymatebodd Ceri nad oes tystiolaeth bod maint ysgol yn niweidiol i ddysgu'r disgyblion. Mae'n dibynnu ar arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth.
- Teimlai athrawes fod gan ysgol Perthcelyn lai i'w gynnig i'r disgyblion. Eglurodd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant mai'r un yw disgwyliad y ddarpariaeth, ond bod dosbarthiadau gwahanol yn cael cyfleoedd a phrofiadau gwahanol er mwyn bodloni anghenion y disgybl. Ymhelaethodd Ceri ymhellach y byddai disgyblion yn datblygu ar yr un llwybr ond bydd ystod o gyfleoedd yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael yn yr ysgol letyol.
- Holwyd swyddogion yr Awdurdod Lleol pam fod y penderfyniad wedi'i wneud i adleoli'r dosbarthiadau. Mynegwyd bod pwyslais ar ddarpariaeth drwodd, yn ogystal ag i foderneiddio'r dosbarthiadau trwy symud i adeiladau modern a phriodol.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â chostau ail-leoli dosbarthiadau yn ogystal â gwneud dosbarthiadau'n addas i'r diben. Atebodd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y byddai cost unrhyw ddatblygiadau i ystafell ddosbarth neu faes chwarae Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn yn cael ei hariannu'n ganolog.
- Rhoddwyd sylw i agweddau daearyddol mewn perthynas â lleoliadau.
- Holodd staff a fyddai modd i'r ysgol gael yr ystafell ddosbarth yn ôl pe bai eu niferoedd yn cynyddu. Fe ddywedon nhw fod yr ystafell ddosbarth sbâr yn cael ei defnyddio ar gyfer ystod o weithgareddau. Cadarnhaodd Ceri fod ymchwil wedi'i wneud ynghylch niferoedd disgyblion rhagamcanol a bod hyn wedi'i gymryd i ystyriaeth wrth ystyried y cynnig yma.
- Dywedodd staff eu bod yn credu bod gan Berthcelyn ystafell ddosbarth sbâr sydd ddim yn cael ei defnyddio. Dywedodd Kate y byddai ystafell ddosbarth yn ysgol Perthcelyn yn fwy addas ar gyfer darpariaeth Cyfnod Allweddol 2, dyna pam y cynnig yma.
- Holwyd swyddogion yr Awdurdod Lleol a fyddai Rhondda Cynon Taf yn ystyried agor dosbarthiadau ychwanegol yn y dyfodol. Cadarnhawyd bod gan y gwasanaeth ddyletswydd statudol i adolygu digonolrwydd ei ddarpariaeth ADY yn rheolaidd a byddai adolygiadau pellach yn cael eu cynnal.
- Gofynnodd aelod o'r grŵp pam mai mis Ebrill oedd y symudiad arfaethedig ac a ddylai'r symudiad arfaethedig fod ym mis Medi er mwyn dechrau ar lechen lân. Teimlai'r staff y byddai'r newidiadau yn achosi cynnwrf i'r plant a'r staff ac yn achosi pryder. Ategodd swyddogion mai ymgynghoriad oedd hwn ac y byddai eu barn yn cael ei hystyried wrth ddatblygu'r cynigion terfynol.
- Teimlo nad yw'r gost i'r gymuned yn cael ei hystyried.

- Mynegwyd pryderon ynghylch y cynnydd mewn traffig pe bai'r cynigion yn mynd yn eu blaenau gydag ail Ddosbarth Cynnal Dysgu yn yr ysgol.

Rhieni

Rhoddodd Ceri drosolwg o'r cynigion. Mae crynodeb o'r sylwadau a wnaed isod.

- Dywedodd y rhieni fod anghenion disgyblion yn newid dros gyfnod o flwyddyn. Ymatebodd Ceri y byddai Cynllun Datblygu Unigol (CDU) disgybl yn sicrhau bod eu hanghenion a darpariaeth addas yn cael eu nodi'n glir a'u hadolygu.
- Mynegodd rhiant bryder mai dim ond ers blwyddyn yr oedd eu plentyn wedi bod yn mynychu'r Dosbarth Cynnal Dysgu ac y byddai angen ei symud eto.
- Gofynnodd rhiant pam mai Abercynon yw'r unig ddosbarth sy'n cael ei symud. Eglurodd Ceri fod darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael ei hadolygu'n barhaus yn unol â'n dyletswydd statudol ac y cynhelir adolygiadau pellach yn y dyfodol. Un o nodau parhaus y gwasanaeth yw lleihau nifer y disgyblion sy'n pontio. Eglurodd Ceri hefyd fod y newidiadau arfaethedig i'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cael eu cyflwyno'n raddol dros sawl tymor i sicrhau y gellid darparu cymorth priodol.
- Mynegodd rhieni fod y disgyblion yn elwa o gael mynediad i'r gymuned a chyfleusterau – nid oes gan ysgol Perthcelyn gymuned fel Abercynon. Roedden nhw hefyd yn pwysleisio bod bod yn rhan o'r gymuned yn bwysig gan fod modd iddo arwain at well sgiliau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu.
- Mynegodd rhiant bryder y mae modd i gyfnodau pontio effeithio ar fywyd cartref.
- Dywedodd y rhieni fod cynnwys disgyblion yn y brif ffrwd o fudd i ddisgyblion dosbarth Hazel.
- Mae rhieni'n credu bod gan Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon gyfleusterau gwell a'i bod yn fwy croesawgar nag Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn. Pwysleisiodd rhieni bwysigrwydd yr agwedd gymuned a chyfeillgarwch. Dywedodd rhieni nad oedd gan ysgol Perthcelyn y cyfleusterau yn y gymuned i hwyluso datblygiad plant ASA – e.e. caffi, parciau, llyfrgell.
- Dywedodd y rhieni fod plant iau yn llai tebygol o gael eu heffeithio gan bontio. Roedden nhw'n teimlo y byddai plant hŷn yn cael eu heffeithio'n andwyol ac mae'r cynnig yn canolbwyntio ar y disgyblion iau. "Mae plant hŷn yn eu ffyrdd eu hunain ac yn annhebygol o addasu".
- Holodd rhieni pam na allai'r ysgol gynnwys y 2 ddosbarth ASA a'r Blynnyddoedd Cynnar. Esboniodd swyddogion mai dim ond 2 ddosbarth oedd ar gael i gynnal y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.
- Gofynnodd rhieni a oedd yr Awdurdod Lleol wedi ystyried symud y Dosbarth Cynnal Dysgu Arsylwi ac Asesu'r Blynnyddoedd Cynnar tawelach i ysgol dawelach. Dywedodd Ceri wrth y grŵp fod y cynnig i gynnal Asesiad y Blynnyddoedd Cynnar a Dosbarthiadau Arsylwi Cynnal Dysgu yn Abercynon wedi'i wneud oherwydd yr ardal ddaearyddol a fyddai'n caniatáu i ddisgyblion o Rondda Cynon Taf isaf, a Chwm Cynon gael mynediad at y ddarpariaeth. Yn ogystal, trwy gynnal Asesiad y Blynnyddoedd Cynnar a Dosbarthiadau Arsylwi Cynnal Dysgu, byddai'n darparu cyfleoedd ychwanegol a chyfle i ddisgyblion gael mynediad at y ddwy ddarpariaeth yn yr un lleoliad.
- Roedd rhieni'n bryderus nad oedd y disgyblion yn hanesyddol wedi cael cefnogaeth dda yn ystod y cyfnod pontio a pha gymorth bydd yn cael ei roi ar waith nawr. Dywedodd swyddogion yr Awdurdod Lleol wrth y rhieni y bydd disgyblion yn cael eu cefnogi gan staff y Dosbarth Cynnal Dysgu wrth iddyn nhw symud gyda'r disgyblion.

- Gofynnodd rhiant pam fod y newidiadau yn cael eu gwneud ym mis Ebrill 2024. Ategodd swyddogion mai ymgynghoriad oedd hwn ac y byddai eu barn yn cael ei hystyried wrth ddatblygu'r cynigion terfynol.
- Cododd rhiant bryderon eu bod yn teimlo bod eu gwybodaeth breifat wedi'i rhannu'n amhriodol. Anogodd swyddogion y rhiant i gyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol o'u pryderon.
- Dywedodd rhiant eu bod yn teimlo bod rhiant o Berthcelyn wedi dylanwadu ar y cynnig. Sicrhaodd Lisa fod y cynigion wedi'u hysgrifennu gan swyddogion yr Awdurdod Lleol yn dilyn eu darpariaeth bresennol.
- Teimla'r rhieni nad yw'r broses wedi'i dilyn a byddan nhw'n codi'r mater. Anogodd swyddogion y rhiant i gyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol o'u pryderon.

Disgrifiodd Ceri a Lisa broses yr ymgynghoriad yn fanwl

- Teimla'r rhieni fod y cyfleusterau awyr agored yn rheswm i'r plant aros yn y ddarpariaeth bresennol.
- Teimla'r rhieni, gan fod y disgyblion yn fwy sefydledig yma, y dylen nhw aros yma ac y dylid gosod y dosbarthiadau newydd yn rhywle arall.
- Disgrifiodd rhieni'r manteision enfawr yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon o gymharu â chael eu gosod mewn unedau eraill.
- Teimla rhieni nad yw tarfu yn dymor byr ond yn hir dymor.
- Mynegodd rhieni bryderon na fyddai modd iddyn nhw gael mynediad at gludiant i'r ysgol arfaethedig gan y bydden nhw yn y dalgylch yn seiliedig ar bolisi cludiant a sut y byddai hyn yn effeithio ar eu plentyn. Disgrifiodd Ceri y broses trafndiaeth ac ailadroddodd fod cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod Lleol. Mae rhieni'n teimlo bod yna enillwyr a chollwyr ariannol – (os ydych chi'n byw ymhellach na X milltir, does dim modd i chi hawlio'r swm).
- Codwyd materion hygrychedd o ran cerdded i'r ysgol arfaethedig oherwydd bryniau.
- Ailadroddodd rhieni'n nad oes unrhyw fudd i'w plant o'r newid arfaethedig yma.
- Gofynnwyd a yw'r garfan Seicoleg Addysg wedi adolygu'r newidiadau arfaethedig yma – A allai gweithiwr meddygol proffesiynol wneud dyfarniad/cael mewnbwn ar y newidiadau yma? Dywedodd Ceri wrth y grŵp na allai unrhyw weithiwr meddygol proffesiynol effeithio ar leoliad addysg disgybl.
- Mae rhieni'n teimlo bod yr Awdurdod Lleol yn mynd â phlant ag anhwylderau cyfathrebu a chymdeithasol ac yn eu symud allan i'r "anialwch".
- Teimlai rhieni fod gan yr ysgol bopeth yma, gan ganmol staff, cyfleusterau a gofod. Gall rhieni weld manteision mynychu'r dosbarth presennol wrth ddatblygu eu plant.
- Teimlai rhieni nad oedd unrhyw reswm i ddisgyblion symud o Abercynon i'r ysgol arfaethedig.

Achlysuron Ymgynghori 2023 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn		
Dyddiad	13/06/2023	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	4
Nifer y Disgyblion:	9	Nifer y Rhieni:	6
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol, Staff/Corff Llywodraethol, Rhieni	Nifer y Llywodraethwyr	4
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Lisa Carter, Kate Hill, Iwan Griffiths		
Cyngor yr Ysgol			
<p>Rhodddwyd trosolwg i'r Cyngor Ysgol o'r cynigion, gofynnodd swyddogion am eu barn. Dyma grynodedb o'u sylwadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd pob disgybl yn credu bod y cynigion yn syniad da. • Dywedodd y cyngor ysgol y gall disgyblion iau ASA aros yn yr un ysgol a chynnal cyfeillgarwch yn ogystal â gwneud ffrindiau newydd ar draws dosbarthiadau. • Nodwyd nad yw Dosbarth Pinc yn mynd i ddosbarthiadau iau ond yn gweithio ochr yn ochr â dosbarthiadau oedran babanod eraill. Mae disgyblion iau yn mwynhau helpu disgyblion Dosbarth Pinc. • Mae Dosbarth Pinc wedi ei integreiddio yn yr ysgol ac yn cael ei gynnwys mewn gweithgareddau – Mabolgampau, yr Eisteddfod, gwasanaeth, cymysgedd amser cinio gyda disgyblion eraill ar y buarth. • Amlygwyd bod cyn-ddisgybl o Ddosbarth Pinc wedi trosglwyddo i'r brif ffrwd. • Bydd disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu ASA yn Ysgol Gynradd Abercynon yn cael eu haduno gyda hen ffrindiau os byddan nhw'n symud i ysgol Perthcelyn. • Holodd y disgyblion ble byddai'r ystafell ddosbarth yn cael ei gosod. Eglurwyd y bydd yn ymuno â'r ystafell ddosbarth sy'n ffinio â Dosbarth Cynnal Dysgu'r Cyfnod Sylfaen. • Bydd cynnwys dosbarth arall yn eu helpu i ddeall sut beth yw bywyd i ddisgyblion ag ASA wrth iddyn nhw fynd yn hŷn. Bydd cynnwys mwy o ddisgyblion ASA yn dysgu eraill bod pobl yn wahanol, yn ychwanegu mwy o oddefgarwch at bobl sy'n wahanol yn yr ysgol. • Awgrymwyd y gallai disgyblion hŷn ASA helpu gyda disgyblion iau ASA. • Gallai disgyblion yn y dosbarth gael mynediad at adnoddau lleol megis y parc, canolfan gymunedol (clybiau) a'r caeau. Mae llawer o gefn gwlad o amgylch ysgol Perthcelyn ac mae wedi'i lleoli'n agos at y pentref lleol. Mae llawer o weithgareddau cymunedol ar gael gan gynnwys defnyddio'r pwll padlo/pwyllgor pwll a'r eglwys. Mae ASD Rainbows gerllaw. Mae gwaith datblygu enfawr wedi'i wneud ar y pwll yn ddiweddar ac mae wedi agor. • Awgrymwyd y gallai fod gweithgareddau gwyliau ac ar ôl ysgol yn ASD Rainbows. • Bydd modd i ddisgyblion y dosbarth hefyd ymuno â theithiau ysgol megis teithiau i barciau thema, Techniquet, Fferm Ffoli. 			

- Mae'r plant yn edrych ymlaen at gael dosbarth newydd, doedd gyda nhw ddim pryderon.
- Holwyd pwy fyddai yn y dosbarth. Soniodd Kate y bydd y dosbarth ASA yn trosglwyddo, ochr yn ochr â'r staff.

Staff / Corff Llywodraethu

Rhoddodd Lisa drosolwg o'r broses ymgynghori.

- Codwyd cwestiwn ynghylch arolygon ac adborth, sut mae hyn yn effeithio ar y cynigion? Rhoddwyd yr ateb y byddai'r Cabinet yn adolygu'r holl ddogfennau a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori. Mae gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ddyletswydd i ddarparu ymateb i'r holl sylwadau a'u cynnwys yn y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad.
- Y consensws cyffredinol oedd bod ofn y byddai anghydbwysedd o ran dylanwad y deisebau oherwydd maint gwahanol y cymunedau yr effeithir arny'n nhw, gan fod gan ysgol Abercynon gymuned a phoblogaeth ysgol fwy na ysgol Perthcelyn. Ofnau y gallai pob newid gael ei wrydroi pe bai digon o bobl yn lleisio eu barn. Mynegwyd pryderon y byddai'n gosod cynsail pe bai modd gwrthdroi cynigion heb unrhyw sail resymegol, dim ond nifer fawr o enwau ar ddeiseb.

Rhoddodd Kate drosolwg o gynigion yr ymgynghoriad.

- Y consensws yw cytuno â'r cynigion.
- Anogodd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y rhai a oedd yn bresennol i ddefnyddio'r arolwg a darparu gohebiaeth bellach i fynegi eu barn.
- Pwysleisiodd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant bod modd i unrhyw un sydd am roi adborth wneud hynny.
- Nodwyd bod angen ystyried disgyblion a grybwyllwyd mewn cyfarfod rhieni a allai fod angen trosglwyddo i ysgol Abercynon ac yna'n ôl i ysgol Perthcelyn os caiff y cynnig ei dderbyn.
- Roedd y staff o'r farn bod plant o oedran iau yn llai tebygol o ymdopi â'r cyfnod pontio, roedd un mynychwr yn credu bod newid yn haws pan yn hŷn.
- Mae pob aelod yn credu bod y newidiadau arfaethedig i gyd yn gadarnhaol ar gyfer y disgyblion iau.
- Teimlai'r staff fod yn well gan rieni fynychu'r ysgol yn gyffredinol oherwydd y cyfleusterau.
- Eglurodd Kate resymeg dros y lleoliad a'r ystafelloedd dosbarth wedi'u haddasu yn rhan o'r rhesymeg dros agwedd hygyrchedd y cynigion.
- Mae gan yr ysgol enw da am fod yn gynhwysol ac mae staff yn cydweithio i ymgorffori cynhwysiant ar draws yr ysgol.
- Mae rhai disgyblion o Abercynon yn gyn-ddisgyblion felly byddan nhw wedi cael profiad o'r ysgol ymlaen llaw.
- Trafod pwysigrwydd amrywiaeth darpariaeth i gwrdd â galw gwahanol anghenion ar draws yr Awdurdod Lleol.

Rhieni

Rhoddodd Lisa drosolwg o'r broses ymgynghori a rhoddodd Kate drosolwg o'r cynigion ymgynghori.

- Codwyd pryderon bod plant yn debygol o ddiodef oherwydd y broses pontio. Teimlai rhieni y byddai disgyblion yn cael eu symud o Ysgol Perthcelyn i Abercynon ac yna yn ôl i Berthcelyn. Cyfeiriodd rhiant at darfu hirdymor ar addysg a datblygiad personol. Gallai'r disgyblion sydd i fod i bontio ym mis Medi aros yn ysgol Perthcelyn os symudir y dosbarth. Trafododd y rhieni'r broses paratoi ac

effaith negyddol y broses pontio. Atebodd Kate y byddai anghenion disgyblion unigol yn cael eu hystyried a'u trafod gyda'r rhieni wrth baratoi ar gyfer blwyddyn 3.

- Dywedodd rhieni eu bod yn teimlo bod eu plant yn ffynnu yn emosiynol, yn academaidd ac yn gymdeithasol ac na fydden nhw am gael unrhyw aflonyddwch i effeithio ar eu cynnydd.
- Bu rhieni'n trafod eu plant ac yn teimlo y bydd trosglwyddo yn cael effaith negyddol ar ddysgu'r plentyn. Ofn atchweliad ac effeithiau hirdymor o bontio.
- Mae rhieni wedi codi arian yn bersonol i ddatblygu'r cyfleusterau yn ysgol Perthcelyn ac eisiau i'w plant barhau i elwa o'r cyfleusterau.

Ymhelaethodd Lisa ar y broses ymgynghori wrth i gwestiynau gael eu gofyn a oedd y penderfyniad eisoes wedi'i wneud.

- Gofynnodd rhiant am leoliad daearyddol Dosbarth Cynnal Dysgu'r Blynyddoedd Cynnar. Esboniodd Kate pam fod y dosbarthiadau wedi'u dewis o safbwynt daearyddol yn ogystal ag amgylchedd cwbl hygyrch mewn Ysgol y 21^{ain} Ganrif.
- Cododd rhiant bryderon bod y pontio rhwng y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn cael effaith andwyol ar fynediad y disgybl at addysg ac felly cefnogodd yr achos dros ddarpariaeth drwyddo.
- Dywedodd rhieni eu bod yn derbyn y lle yn y Dosbarth Cynnal Dysgu gan fod yr ysgol yn llai ac yn dawelach. Mae'r rhieni'n credu bod y disgyblion wedi ffynnu yn y lleoliad presennol ac yn pryderu y byddai symud i ysgol lawer mwy yn cael effaith negyddol.
- Holodd rhiant a fyddai adroddiadau Estyn yn cael eu hystyried. Cadarnhaodd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ei bod yn ofynnol i ni ofyn am adborth gan Estyn a manylir ar hyn yn yr adroddiad ymateb i'r ymgynghoriad.
- Roedd y rhiant yn falch o'r gydnabyddiaeth gan Estyn o'r gwaith a wnaed yn ysgol Perthcelyn mewn perthynas â lles disgyblion. Teimlai'r rhiant mai dyma'r ffactor pwysicaf iddi.
- Soniodd rhieni am sut y gall gwahanol gyfleusterau cymunedol fod o fudd i blant gwahanol. Esboniodd Kate sut y dylid addasu'r cwricwlwm newydd i Gymru i adeiladu ar yr adnoddau sydd ar gael yn lleol. Mae disgwyl y gwneir darpariaeth gymesur ar draws yr holl ddosbarthiadau cymorth dysgu o'r un dynodiad, serch hynny caiff hwn ei addasu a'i ddatblygu i fanteisio ar adnoddau'r gymuned leol.
- Cododd rhieni bryderon ynghylch ymateb y cyhoedd i'r newidiadau arfaethedig a theimlon nhw eu bod yn profi gelyniaeth gan y rhai oedd yn gwrthwynebu symud o Abercynon. Teimlai rhieni mai Abercynon sy'n mynegi eu barn fwyaf ac yn achosi aflonyddwch mawr a allai effeithio ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Teimlai rhieni y gallai pobl lofnodi deiseb heb unrhyw gysylltiad na dealltwriaeth o'r cynigion ac o ganlyniad dylanwadu ar y penderfyniad.

Achlysuron Ymgynghori 2023 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Penrhiwceiber		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Penrhiwceiber		
Dyddiad	14/06/2023	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	4
Nifer y Disgyblion:	6	Nifer y Rhieni:	0
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol, Staff/Corff Llywodraethol, Rhieni	Nifer y Llywodraethwyr	3
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Lisa Carter, Kate Hill, Iwan Griffiths		
Cyngor yr Ysgol			
<p>Rhoddodd Lisa drosolwg o'r cynnig sy'n effeithio ar ysgol Penrhiwceibr. Dyma grynodedb o'r sylwadau a wnaed.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cafwyd trafodaethau ynglŷn â'r ardal chwarae awyr agored bresennol a maint y dosbarth ar gyfer disgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu Penrhiwceibr. Roedd disgybl yn meddwl bod yr ardal tu allan yn rhy fach a bod Dosbarth Chestnut weithiau'n mynd ar y brif iard. Roedd aelod o'r cyngor ysgol yn meddwl y byddai'n well i Ddosbarth Chestnut gael mwy o le i ddysgu yn yr awyr agored. • Mae un disgybl yn credu y dylai'r disgyblion symud gan fod mwy o ofod i symud o gwmpas ar gyfer chwarae. Siaradon nhw am ddisgybl penodol sydd angen lle ychwanegol. • Teimlai'r cyngor ysgol y byddai'n newid mawr i Ddosbarth Chestnut. • Teimlai'r cyngor ysgol y gallai'r plant ei chael hi'n anodd setlo ar y dechrau gan nad ydyn nhw wedi arfer ag ef. • Nodwyd nad yw disgyblion Dosbarth Chestnut yn aros yn hir ond pan fydd disgyblion yn y blynyddoedd iau, maen nhw'n chwarae gyda Dosbarth Chestnut yn ystod amser egwyl ac amser cinio. • Teimlai'r cyngor ysgol y byddai'n emosiynol i Ddosbarth Chestnut adael. Cadarnhaodd Lisa y byddai'r athrawes bresennol a'r cynorthwyrwyr parhaol yn symud gyda'r dosbarth i'w helpu nhw i setlo. • Dywedodd aelod y gallai Dosbarth Chestnut wneud mwy o ffrindiau mewn ysgol wahanol. • Cafwyd awgrym gan y cyngor ysgol y gallen nhw ymweld â'r plant. • Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch sut y gallai'r ysgol ddefnyddio'r gofod gwag ar ôl symud y dosbarth. Roedd y syniadau'n cynnwys cornel ddarllen, gorsaf gwaith cartref neu wneud y "burrow" yn fwy. • Gofynnodd un aelod a allen ni wneud y dosbarth yn fwy neu aildrefnu ystafelloedd dosbarth eraill. Eglurodd y pennaeth na fyddai digon o le ar gyfer yr holl ddosbarthiadau presennol ac y byddai gwneud y dosbarth yn fwy yn anodd oherwydd y llethr ac uchder gwahanol y tir y tu allan i'r dosbarth. • Dywedodd pob aelod o'r cyngor y bydden nhw'n teimlo'n drist pe bai Dosbarth Chestnut yn symud er eu bod yn credu bod y cynnig yn syniad da. 			

Staff / Corff Llywodraethu

Rhoddodd Lisa drosolwg o'r broses; Rhoddodd Kate drosolwg o'r cynigion. Dyma grynodedb o'r sylwadau a wnaed.

- Soniodd aelod o staff am eu pryderon ynghylch hygyrchedd ysgol yn y bore. Ar hyn o bryd, mae aflonyddwch difrifol i ddisgyblion sy'n ceisio cael mynediad i'r ysgol ar droed oherwydd y tacsis sy'n gollwng disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu a cheir y rhieni. Mae dewisiadau eraill wedi'u harchwilio'n flaenorol er nad yw'n bosibl addasu'r ardal ollwng oherwydd daearyddiaeth y safle. Yn arbennig, y strydoedd serth, cul o amgylch yr ysgol.
- Codwyd materion hygyrchedd gan fod angen cymorth ar ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu presennol i fyny ac i lawr nifer o risiau. Dywedodd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant wrth staff yr ysgol fod mwy o blant yn cael eu nodi â phroblemau symudedd. Un o nodau'r cynnig yw mynd i'r afael â hyn trwy osod y Dosbarth Cynnal Dysgu mewn Ysgol yr 21^{ain} Ganrif sy'n hygyrch trwy ddyluniad.
- Dywedodd y staff y bydd yn drist i'r dosbarth adael er bod angen gofod ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac mae angen yr hyn sydd orau i'r plant.
- Tynnodd staff sylw at y ffaith bod y disgyblion yn glod i'r ysgol a'u bod wedi bod yn gynhwysol iawn i Ddosbarth Chestnut.
- Yn dilyn y cyngor ysgol, ar ôl dychwelyd i'r dosbarth, adroddodd y disgyblion yn ôl i'r staff y byddan nhw'n teimlo'n drist ond yn cydnabod bod angen diwallu anghenion y plant.
- Cododd staff gwestiynau ynghylch a fydd disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn addasu ac a fydd mwy o ddisgyblion yn effeithio ar ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu. Adroddodd y staff, ar hyn o bryd dyw rhai disgyblion ddim yn mynd allan os oes gormod o sŵn ac felly mae ysgol fach yn cael ei gweld fel mantais.
- Nododd aelod yr effaith ariannol gan fod yr ysgol yn cael ei hariannu'n ganolog a bydd yr ysgol yn colli canran o gyllid sy'n helpu i dalu costau'r safle. Arweiniodd hyn at aelod yn cwestiynu a ellir gwneud datblygiadau ar y safle. Aeth aelod arall i'r afael â hyn a rhoddodd resymeg pam na ellid gwneud newidiadau gan ddefnyddio'r un rhesymau ag a nodir uchod.
- Holwyd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ynghylch beth fyddai'n digwydd i staff sy'n gweithio yn y Dosbarth Cynnal Dysgu. Amlygwyd y bydd staff parhaol yn y dosbarth hwnnw yn symud gyda'r disgyblion. Teimlai'r staff fod angen 3 aelod i reoli'r dosbarth a soniwyd am y Cyllid Capasiti Uwch sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd.
- Credai aelod ei bod yn anodd darparu ar gyfer anghenion y 7 disgybl yn y Dosbarth Cynnal Dysgu yn eu dosbarth presennol oherwydd y cyfyngiad mewn maint a diffyg gofod awyr agored.
- Nododd aelod y byddai angen staff ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau Blynyddoedd Cynnar mwy. Eglurodd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y byddai nifer y disgyblion yn aros yr un fath ac y byddai gan y dosbarth arfaethedig newydd ei staff ei hun. Holodd aelod a allai fod cyfleoedd gwaith i staff nad ydyn nhw'n barhaol wrth i ddosbarth newydd agor. Cadarnhaodd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant fod y dosbarth newydd gyda mwy o gapasiti ac y byddai angen staff newydd.
- Soniodd aelod am ba mor werthfawr yw'r aelod o staff nad yw'n barhaol oherwydd ei fod yn deall anghenion y plant.

- Teimlai'r staff fod y datblygiadau i'r ystafelloedd newid yn gwneud ystafell ddosbarth Dosbarth Cynnal Dysgu yn llai yn Ysgol Gynradd Gymunedol Penrhiwceibr.
- Nododd yr un aelod o staff nad yw'r dodrefn yn addas ar gyfer anghenion y disgybl presennol.
- Y consensws oedd bod y symud yn anodd i staff ac y gallai fod yn anodd i'r plant sy'n pontio er mai anghenion y plant yw'r flaenoriaeth.
- Gofynnwyd a allai staff ymweld ag Abercynon i wirio'r cyfleusterau. Gofynnwyd hefyd a oes angen rhannu'r ardal awyr agored ddiogel os oes gan nifer o ddosbarthiadau fynediad ati. Dywedodd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant wrth y staff y gallen nhw ymweld â'r ddarpariaeth, dim ond i hynny gael ei threfnu ymlaen llaw gyda'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.
- Mewn ymateb i gwestiynau am ddiogelwch, eglurodd staff Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y safle yn cael ei arolygu, bydd asesiad risg yn cael ei gynnal a bydd addasiadau megis ffensys yn cael eu hystyried.

Achlysuron Ymgynghori 2023 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu	
Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Heol y Celyn
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Heol y Celyn
Dyddiad	15/06/2023
Nifer y disgyblion	6
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol, Staff/Corff Llywodraethol, Rhieni
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Lisa Carter, Kate Hill, Iwan Griffiths
Cyngor yr Ysgol	
Rhoddodd Lisa drosolwg o'r cynigion.	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae cyngor yr ysgol yn credu bod y cynigion yn syniad da. • Pan ofynnwyd am farn ar y cynnig, dywedodd un disgybl y byddai cael y dosbarthiadau yn golygu bod mwy o adnoddau newydd ar gyfer disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu a nhw eu hunain. • Mae'r cyngor ysgol hefyd yn credu y bydd ychwanegu dosbarthiadau newydd yn eu helpu nhw a disgyblion eraill i ddeall gwahanol anghenion dysgu ychwanegol a sut y gallan nhw helpu. • Roedd y cyngor ysgol yn edrych ymlaen at agor dosbarthiadau newydd, ni chodwyd unrhyw bryderon. 	

Achlysuron Ymgynghori 2023 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen		
Dyddiad	15/06/2023	Nifer y Cyngor	6
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol	Ysgol:	
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Lisa Carter, Kate Hill, Iwan Griffiths		
Cyngor yr Ysgol			
Rhoddodd Kate drosolwg o'r cynigion. Dyma grynodedb o'r sylwadau a wnaed:			
<ul style="list-style-type: none"> • Roedd y disgyblion i gyd yn meddwl ei fod yn syniad da, roedden nhw'n teimlo y byddai'r dosbarth newydd yn helpu disgyblion i ddysgu ac yn cefnogi'r rhai sydd ei angen. • Gofynnwyd i'r grŵp beth roedden nhw'n ei wybod am Awtistiaeth, dywedodd un disgybl wrthyn nhw am glwb y mae'n ei fynychu lle mae gan ei ffrind awtistiaeth a sut maen nhw'n gwneud pethau'n wahanol i'w chynnwys hi. • Teimlai'r disgyblion y byddai'n ei helpu nhw i ddeall disgyblion hŷn sydd ag Awtistiaeth a gallen nhw helpu'r disgyblion yn y dosbarth i ddysgu. • Gofynnwyd i Kate ble byddai'r dosbarth? Eglurodd Kate y bydd ganddi ei dosbarth ei hun yn yr ysgol ond y bydd y disgyblion yn dod i mewn i'w dosbarthiadau, ac y gallen nhw ymuno â nhw yn ystod amser chwarae ac amser cinio. • Gofynnodd disgybl i Kate beth ydych chi'n ei wneud i helpu'r disgyblion? Esboniodd Kate fod yna athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu sy'n helpu'r disgyblion gyda'u dysgu, gan ddarparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion hynny sy'n cael trafferth gyda newid, er enghraifft, maen nhw'n cael gwersi ar sut i ddysgu darllen emosiynau. Mae'r dosbarthiadau llai yn rhoi lle diogel i ddisgyblion ag ASA ddysgu, gan fod yn well gan rai bod mewn dosbarthiadau bach yn hytrach na dosbarth prif ffrwd ond mae eraill yn dysgu'n well mewn dosbarth mwy. • A fydd hyn yn yr ysgol newydd? Bydd, bydd yn agor unwaith y bydd yr ysgol newydd yn agor. 			

Achlysuron Ymgynghori 2023 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton		
Dyddiad	22/06/2023	Nifer y Disgyblion:	7
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol		
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Lisa Carter, Iwan Griffiths, Ailsa Reynolds		
Cyngor yr Ysgol			
<p>Darparodd Ailsa a Lisa drosolwg o'r cynigion. Mae crynodeb o sylwadau'r cyngor ysgol isod.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnodd aelod o'r cyngor ysgol a oes penderfyniad ar faint o ddisgyblion fydd yn y dosbarthiadau newydd? Esboniodd Lisa nifer yr athrawon a'r cynorthwyr cymorth dysgu yn y dosbarth. Gofynnodd aelod o'r cyngor ysgol pa fath o anghenion fydd gan y dosbarth. Dywedodd Ailsa wrth y cyngor ysgol fod y dosbarth ar gyfer plant ag anghenion dysgu sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg a bod modd i ddisgyblion ag anghenion gwahanol gael mynediad at y dosbarth. Disgrifiodd Ailsa y byddai'r disgyblion yn dod o bob rhan o Rondda Cynon Taf ac yn cael eu cludo i'r ysgol mewn tacsis. • Nid oes gan y cyngor ysgol unrhyw broblemau gyda'r dosbarthiadau newydd a gynigir ac maen nhw'n teimlo bod y newidiadau yn syniad da. Trafododd un disgybl sut y byddai dosbarth llai yn dda i ddisgyblion sy'n cael trafferth mewn dosbarthiadau mwy. • Gofynnodd aelod o'r cyngor ysgol a fyddai'r bechgyn a'r merched eraill yn gallu chwarae gyda disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu. Dywedodd Lisa y bydd yr ysgol yn annog cynhwysiant ym mhob maes gan gynnwys amser chwarae, dathliadau, gwasanaethau, triplau ysgol a gwersi dosbarth a rennir. • Gofynnodd aelod o'r cyngor ysgol a fydd disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn gwneud yr un gwaith ond yn arafach na'r dosbarthiadau prif ffrwd. Dywedodd Ailsa ei fod yn dibynnu ar anghenion y disgybl yn y dosbarth. Bydd y disgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu yn dilyn yr un testunau yn yr ysgol ond bydd eu dysgu yn ymgorffori'r hyn sy'n gweithio orau i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu, a hynny'n seiliedig ar eu hanghenion. • Gofynnodd aelod o'r cyngor ysgol os oes gormod o ddisgyblion yn y dosbarth Dosbarth Cynnal Dysgu newydd, beth fydd yn digwydd? Trafododd Lisa faint y dosbarthiadau fel y crybwyllwyd yn gynharach gan Ailsa. Dywedodd Lisa hefyd, os oes gormod o ddisgyblion, byddai'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn ystyried agor Dosbarth Cynnal Dysgu newydd mewn ysgol wahanol. 			

Achlysuron Ymgynghori 2023 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen		
Lleoliad:	Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen		
Dyddiad	15/06/2023	Nifer y Cyngor	6
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol	Ysgol:	
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Lisa Carter, Kate Hill, Iwan Griffiths		
Cyngor yr Ysgol			
<p>Darparodd Iwan drosolwg o'r cynnig mewn perthynas â darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn Ysgol newydd y Ddraenen Wen. Dyma grynodedb o'r sylwadau a godwyd gan y cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnwyd i swyddogion pam ei fod wedi'i ddynodi i Gyfnodau Allweddol 3 a 4 ac nid i'r cyfnodau cynradd hefyd? Eglurodd Kate fod gyda ni ddigon o ddarpariaeth gynradd ar hyn o bryd, roedd disgyblion o'r farn y dylen ni ystyried agor darpariaeth ar gyfer disgyblion iau. • Syniad da i roi cymorth i ddisgyblion a fyddai'n cael trafferth, mae disgybl yn credu y bydd disgyblion prif ffrwd yr ysgolion yn derbyn disgyblion ag awtistiaeth. Siaradodd y disgybl yn annwyl am ddisgybl ag anghenion dysgu ychwanegol a sut roedd pawb wedi eu cynnwys nhw. • Teimlai'r disgyblion y byddai'r dosbarth yn caniatáu i gefnogaeth benodol gael ei darparu mewn amgylchedd pwrpasol ac y byddai'n fuddiol yn gyffredinol i'r disgyblion a'r staff. • Maen nhw wedi arfer â disgyblion yn dod i mewn i'w dosbarth ac yna'n gadael i fynd yn ôl i'w canolfan o'r Dosbarth Cynnal Dysgu lleferydd ac iaith. • Eglurodd disgybl fod y 'Hive' yn cael ei ddefnyddio i gefnogi disgyblion ar hyn o bryd, y rhai sydd angen ymlacio neu rheiny sydd angen cymorth gyda Saesneg, Mathemateg, neu os ydyn nhw dan straen. Mae'r staff yn cynnal gweithgareddau sy'n gallu helpu disgyblion. Roedd disgyblion o'r farn y gallai'r 'Hive' helpu disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu a holwyd a ellid ehangu'r 'Hive' ar gyfer disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu. • Gofynnodd disgybl a fyddai'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn hygyrch i ddisgyblion nad ydyn nhw wedi cael diagnosis o awtistiaeth? Eglurodd Kate oherwydd y rhestr aros am ddiagnosis yn dilyn COVID-19, ein bod ni'n edrych ar anghenion y disgyblion a'r cymorth sydd ei angen ar yr unigolyn i ddysgu. Yn yr un modd, mae modd i rai disgyblion sydd â diagnosis gael mynediad at ddarpariaeth brif ffrwd. • Gofynnodd disgybl a fyddai'r disgyblion yn cael diwrnodau pontio ychwanegol. Ymatebodd swyddogion y byddai cyfleoedd neu ddiwrnodau pontio ychwanegol yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion disgyblion unigol. • Roedd gan un disgybl Dosbarth Cynnal Dysgu yn ei ysgol gynradd felly maen nhw wedi arfer cael dosbarth. • Trafododd y grŵp fanteision cael arbenigwr ASA yn amgylchedd yr ysgol a sut y byddai hyn yn helpu pob aelod o staff. 			

Achlysuron Ymgynghori 2023 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol newydd y Ddraenen Wen ac Ysgol newydd Rhydfelen		
Lleoliad:	Teams		
Dyddiad	15/06/2023	Nifer y rheiny a gymerodd ran:	2 – Aelodau o Staff o Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac 1 Cynghorydd
Math o gyfarfod:	Cyrff Llywodraethu Dros Dro Ysgol 3-16 newydd y Ddraenen Wen ac Ysgol Cyfrwng Cymraeg Newydd		
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Lisa Carter, Kate Hill, Iwan Griffiths		
Corff Llywodraethu Dros Dro			
<p>Rhoddodd Lisa drosolwg o'r broses ymgynghori. Rhoddodd Kate drosolwg o'r cynigion. Dyma grynodedb o'r sylwadau a wnaed.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnodd aelod a fyddai'r cynigion yn effeithio ar ddarpariaeth y Dosbarth Cynnal Dysgu Lleferydd ac Iaith bresennol yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen. Ymatebodd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant drwy egluro bod y ddau Ddosbarth Cynnal Dysgu yn annibynnol ac felly bydd y cynnig yn cynyddu darpariaeth a staffio. • Holodd aelod o staff sut y byddai'r dosbarth yn cael ei drefnu o fewn yr ysgol. Cyfeiriodd Kate at arfer yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ASA presennol lle mae disgyblion yn defnyddio tua 60% o'u darpariaeth yn y brif ffrwd. Anogir integreiddio i'r brif ffrwd ochr yn ochr ag ymyriadau arbenigol sy'n canolbwyntio ar sgiliau cyfathrebu cymdeithasol. • Gofynnwyd faint o staff newydd fydd yn cael eu cyflogi ar gyfer y Dosbarth Cynnal Dysgu newydd ar safle cynradd/uwchradd y Ddraenen Wen. Dywedodd Kate wrth yr aelod y bydd athrawes Dosbarth Cynnal Dysgu a chynorthwyrwr Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu hariannu'n ganolog a'u darparu i ysgolion. • Gofynnwyd a allai CDU gynnwys cymorth un i un. Trafododd Kate yn fanwl y cymorth gwahanol sydd ar gael i ddisgyblion â CDU a chadarnhaodd nad yw cymorth un i un yn cael ei ddyrannu mewn CDU. • Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch dyluniad adeilad yr ysgol 3-16 newydd yn y Ddraenen Wen. Dywedodd Lisa wrth yr aelodau bod ystafell ddosbarth arfaethedig y Dosbarth Cynnal Dysgu wedi'i nodi pan luniwyd cynlluniau, felly mae gan yr ysgol le ar gyfer y cynnig yma. Soniodd aelod am bwysigrwydd sicrhau bod yr ysgol yn addas i'r diben. Trafododd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant sut y cynhaliwyd trafodaethau darpariaeth yn ystod y cam cynllunio ac felly ystyriwyd ffactorau megis lefel sŵn a gofod. • Holodd aelod a fydd angen i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu sefyll arholiadau. Eglurodd Kate y bydd myfyrwyr yn sefyll arholiadau. • Holodd aelod sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r ysgol i sefydlu'r dosbarth. Dywedodd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant wrth yr aelod unwaith y 			

bydd yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau a'i gytuno, bydd y Cydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig yn gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth ochr yn ochr â'r ysgol. Bydd adnoddau, darpariaeth a chyfleoedd hyfforddi ar gael.

- Gofynnodd aelod a oedd swyddi'r Dosbarth Cynnal Dysgu wedi'u nodi yn strwythur staffio'r ysgol. Eglurodd Lisa nad yw swyddi'r Dosbarth Cynnal Dysgu wedi'u cynnwys yn strwythur yr ysgol. Mae staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu hariannu'n ganolog a'u penodi mewn cydweithrediad â'r ysgol.
- Nododd aelod mai pwyslais yr ymgynghoriad yw lleihau pontio a thynnodd sylw at y ffaith bod yr ysgol 3-16 newydd yn y Ddraenen Wen yn enghraifft wych o ble y mae modd gosod darpariaeth drwodd. Dywedodd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant bod digon o ddarpariaeth ASA cynradd ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes digon o ddarpariaeth uwchradd. Nododd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yr awgrym. Derbyniwyd gan yr aelod nad oes modd gwneud pob newid ar yr un pryd ac awgrymodd y gellid edrych ar hyn yn y dyfodol.
- Teimlai aelod fod y cynigion presennol yn canolbwyntio ar leihau trosglwyddiadau disgyblion iau ac nid disgyblion hŷn. Soniodd staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant am Ysgol Gymunedol y Porth sydd ar hyn o bryd yn cynnal Dosbarth Cynnal Dysgu ar bob lefel grŵp oedran ac y gallai'r dull yma gael ei ymgorffori mewn mwy o ysgolion yn y dyfodol.
- Canmolodd aelod y cysyniad o drosi Swyddfeydd y Cyngor yn y Pafiliynau yn ysgol arbennig er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth.
- Holwyd am strwythur y profforma ymateb i'r ymgynghoriad. Eglurodd Lisa fod hyn wedi'i unioni ar y profforma ar-lein sy'n dadansoddi pob cynnig.
- Dywedodd Kate fod y cynigion yn dal yn y cyfnod ymgynghori a bod adborth yn cael ei werthfawrogi. Anogodd Kate gyfraniad gan yr aelodau.
- Roedd aelod yn ansicr pam y cyfarfu'r corff llywodraethu dros dro a'r disgyblion o'r ysgolion yr effeithiwyd arnyn nhw yn y dalgylch, ond nid y staff presennol a llywodraethwyr yr ysgol. Byddai wedi bod yn well gan yr Aelod pe bai llywodraethwyr ysgol wedi rhoi mewnbwn ffurfiol i'r ymgynghoriad. Anogodd Lisa'r aelod i rannu'r profforma ymateb i'r ymgynghoriad gyda llywodraethwyr yr ysgol.
- Gofynnwyd ble fyddai'r dosbarth wedi'i leoli ar y campws? Ar hyn o bryd, dim ond ar fap datblygu yr oedd Lisa wedi gweld lleoliad y dosbarth. Mae'r ystafell ddosbarth wedi'i neilltuo gan Ysgol y 21^{ain} Ganrif yn yr adeilad newydd. Nid yw'n glir a fydd y Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig yn yr un ardal o'r ysgol â Dosbarth Cynnal Dysgu Lleferydd ac Iaith y Ddraenen Wen.

Achlysuron Ymgynghori 2023 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Enw'r ysgol:	Ysgol newydd y Ddraenen Wen ac Ysgol Newydd Rhydfelen		
Lleoliad:	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen		
Dyddiad	16/06/2023	Nifer y rheiny a gymerodd ran:	0
Math o gyfarfod:	Rhieni disgyblion a allai fynychu Ysgol 3-16 newydd y Ddraenen Wen ac Ysgol Cyfrwng Cymraeg Newydd		
Swyddogion yr Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol:	Lisa Carter, Kate Hill, Iwan Griffiths, Ailsa Reynolds		
Corff Llywodraethu Dros Dro			
Nid oedd unrhyw rieni yn bresennol.			

Adroddiad Estyn

Cynnig i aildrefnu'r ddarpariaeth o ran Dosbarthiadau Cynnal Dysgu o fewn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r adroddiad yma wedi'i baratoi gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan amodau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae gofyn bod cynigwyr yn anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Serch hynny, does dim gofyn bod Estyn yn gweithredu yn unol â'r Cod, a dydy'r Ddeddf ddim yn gosod unrhyw ofynion ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, ac yntau'n gorff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar fanteision cyffredinol y cynnig o ran trefniadaeth yr ysgol yn unig. Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y cynigydd.

Dyma'r cynnig:

- Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu (Arsylwi ac Asesu) yn Ysgol Gynradd Penrhiwceibr i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon, i ddod i rym o fis Ebrill 2024.
- Trosglwyddo'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 3-6 ag Anhwylder Sbectrwm Awstiaeth (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd yn Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn, i ddod i rym o fis Ebrill 2024.
- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Ebrill 2024.
- Sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2024.
- Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 7-11 ag ASA yn yr ysgol 3-16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen, i ddod i rym o fis Medi 2024.

Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn yn croesawu symudiad yr Awdurdod Lleol i wella darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn cydnabod rhinwedd llawer o'r strategaethau yn yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys cynyddu

darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a oedd yn agwedd a nodwyd yn yr adolygiad gwasanaethau addysg llywodraeth leol ddiweddar. At ei gilydd, barn Estyn yw bod yr wybodaeth a gafodd ei darparu yn awgrymu y bydd y cynigion yn debygol o wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn yr Awdurdod Lleol. Serch hynny, mae ambell agwedd o'r cynigion sydd angen eu cryfhau ac mae'r rhain wedi'u nodi yn ein hymateb.

Disgrifiad a manteision

Mae'r Awdurdod Lleol wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer y cynigion yn gyffredinol. Ei nod yw adlinio darpariaeth ADY i fodloni anghenion disgyblion, i sefydlu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ychwanegol i alluogi disgyblion ag ADY sylweddol i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol amser llawn, i leihau nifer y pontio rhwng lleoliadau ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed ac i fodloni'r galw am ymyrraeth gynnar.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys amserlen ragamcanol ar gyfer gweithdrefnau statudol a dyddiadau gorffen clir ar gyfer pob un o'r pum cynnig, er enghraifft nodi pryd fydd y ddarpariaeth newydd yn agor. Mae'n aneglur p'un a oes unrhyw drefniadau interim arfaethedig, a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer eu gweithredu.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi nodi manteision rhagdybiedig y cynigion ond nid yw wedi nodi'r anfanteision arfaethedig yn glir. Mae'n cydnabod manteision yn deg, megis gwella'r ystod o gyfleusterau ac adnoddau dysgu sydd ar gael i ddisgyblion. Serch hynny, mae pump cynnig ar wahân yn yr ymgynghoriad, a dim ond datganiadau cyffredinol am anfanteision sydd yn y ddogfen, megis 'Gallai adleoli'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a enwyd achosi rhywfaint o aflonyddwch cyfyngedig i'r ysgolion cynnal arfaethedig.' Nid yw'r ymgynghoriad yn ddigon clir am risgiau potensial sy'n gysylltiedig â chynigion penodol neu sut fydd yr Awdurdod Lleol yn delio â nhw. Nid yw'r cynnig yn nodi sut bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod y tarfu ar ddisgyblion yn cael ei leihau, er enghraifft sut y mae'n cefnogi'r disgyblion hynny sydd mewn unrhyw un o'r lleoliadau ac sydd wedi symud i ddarpariaeth wahanol.

Mae'r ddogfen cynigion yn nodi'n briodol y byddai gwneud dim yn golygu na fyddai'r Awdurdod Lleol yn bodloni ei ddyletswyddau statudol a bod angen wedi'i nodi am y ddarpariaeth yma. Serch hynny, mae'r cynigydd ond yn datgan bod dewisiadau amgen wedi'u hystyried, heb roi gwybodaeth glir ynghylch beth, na pham, y cawson nhw'u diystyru.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn ddigonol effaith y newidiadau ar drefniadau teithio disgyblion a hygyrchedd y ddarpariaeth. Mae'r cynnig yn nodi y byddai cludiant yn cael ei darparu yn unol â Pholisi'r Cyngor a chaiff disgyblion le yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol. Mae'n nodi os caiff disgyblion eu lleoli mewn Dosbarth Cynnal Dysgu, mae'n bosibl y bydd angen i ddisgyblion deithio y tu allan i'r dalgylch, er y byddan nhw'n ceisio

gosod disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu priodol agosaf at eu cyfeiriad cartref.

Mae'r cynigydd yn nodi nifer y disgyblion sydd ym mhob ysgol ar hyn o bryd ac amcangyfrif o niferoedd y dyfodol. Serch hynny, nid oes unrhyw ragamcanion nac amcangyfrifon ar gyfer niferoedd disgyblion ag ADY yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig creu 18 lle cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY yn Rhydfelen, ond nid yw wedi nodi'r galw am y lleoedd yna. Yr un modd, mae dwy o'r ysgolion yn y cynnig yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, ond nid yw'r cynigydd wedi darparu amcangyfrif o niferoedd rhagamcanol y disgyblion.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth dda i effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod Lleol ac i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdod Lleol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi ystod deg o fanteision y cynnig a'r effaith bosibl ar ddisgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r cynigydd yn nodi:

- Y dylai adleoli'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon ddarparu dull mwy cydgysylltiedig a gwell continwwm o ddarpariaeth ASA ar gyfer disgyblion yng Nghwm Cynon.
- Bydd adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu sy'n cael ei gynnal yn Ysgol Gynradd Penrhawceibr ar hyn o bryd yn sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad i fannau chwarae awyr agored addas sy'n hanfodol i addysgu yn y Blynyddoedd Cynnar.
- Dylai'r cynigion i greu darpariaeth pob oed gwell yn Ysgol Perthcelyn sicrhau nad yw'n ofynnol i ddisgyblion ymgymryd ag unrhyw drosglwyddiadau ychwanegol a bydd yn caniatáu i'r disgyblion hynny sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y Dosbarth Cynnal Dysgu aros yn y ddarpariaeth tan ddiwedd Blwyddyn 6.
- Bydd creu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn Rhydfelen yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol wedi mynd i'r afael â'r bwlch presennol yn y ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ysgolion cynradd.

Serch hynny, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn darparu gwybodaeth ddigon clir am ystod o agweddau addysgol ar y cynigion fel y'u nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, megis effaith y cynigion ar ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, yn ogystal ag arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae'r cynnig yn darparu gwybodaeth o adroddiadau mwyaf diweddar Estyn ar gyfer pob ysgol sy'n debygol o gael eu heffeithio.